# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 565 · **Mehefin 2025** · 70c

## Y TRO CYNTAF ERS 1947

**Llongyfarchiadau enfawr i Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen ar ddod i'r brig yn Rali Ffermwyr Ifanc Eryri eleni. Roedd hyn yn cryn gamp ac yn binacl gwych ar ôl yr holl wythnosau o baratoi. Yr hanes yn llawn a rhagor o luniau ar dudalen 20.**






## Carnifal Bethesda yn mynd o nerth i nerth




Roedd yr haul yn tywynnu ym Methesda ar Fai 17 a daeth cannoedd o'r pentref a'r ardal i gefnogi y Carnifal.

Y stori'n llawn lluniau ar dudalen 29.







# Llais Ogwan

**Rhif 565**
**Mehefin 2025**

### Panel Golygyddol

Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

### Swyddogion

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

### Trefnydd hysbysebion

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

### Ysgrifennydd

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

### Trysorydd

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Rhys Llwyd.**

Y golygydd ym mis **Gorffennaf** fydd **Carwyn Meredydd**, 20 Rhes Ogwen, Bethesda, LL57 3AY. 07867 536102 carwynian@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 28 Mehefin** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 17 Gorffennaf**, yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184) post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (60) | Gomer Davies, Tregarth |
| £20.00 | (19) | Gareth Llwyd, Bethesda. |
| £10.00 | (47) | Gillian Taylor-Williams, Bethesda. |
| £5.00 | (67) | Sheila V. Owen, Talybont. |

## Dyddiadur y Dyffryn

### Mehefin

21 Roc y Ddôl, Clwb Rygbi Bethesda rhwng 11.30yb a 11.00yh.
21 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
24 Gyrfa chwist, Canolfan cefnfaes am 6.45yh.
29 Caffi Trwsio Caban Gerlan, 11.00-1.00yp.

### Gorffennaf

1 Te Mefus, Festri Bethlehem, Talybont am 7.00
5 Balchder Gogledd Cymru, Neuadd Ogwen, 5.00 – 11.55yh.
8 Gyrfa chwist, Canolfan cefnfaes am 6.45yh.
16 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen – Ymweliad ag Eglwys a mynwent hanesyddol Llandygâi am 6.00yh. Archebwch le gyda Dafydd Roberts (dafydd@caerwern.cymru).
17 Casglu a dosbarthu Llais Ogwan ar y llawr uchaf yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45yh.
22 Gyrfa chwist, Canolfan cefnfaes am 6.45yh.
29 Gyrfa chwist, Canolfan cefnfaes am 6.45yh.

## Rhoddion i'r Llais

£25.00 Fal Jenkins er cof am Denis Vaughan Griffith.

***Diolch yn fawr.***

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

# Llais Ogwan

***Newyddion Gorffennaf i'w dderbyn erbyn 28 Mehefin.***
***Dyddiad cyhoeddi 17 Gorffennaf.***

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318)
carys16@hotmail.com

**Llwyddiant hyfforddwr karate o Bentir**
Mae Reuben Florence o Bentir wedi profi cryn lwyddiant fel ymgeisydd unigol mewn cystadlaethau karate ac wedi treulio amser yn cael ei hyfforddi yn Japan.

Mae'n rhedeg nifer o glybiau karate, megis ym Mangor, Caernarfon, Llanfairpwll a Llangefni dan yr enw Dragon Karate Cymru. Mae ganddo dudalennau Facebook, Instagram ac Youtube ynghyd â thudalen www.dragonkarate.cymru.

Bu rhai o'i ddisgyblion yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Cymru 2025 yn ddiweddar a gynhaliwyd yng Ngerddi Sophia, Caerdydd.

## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Sêl Planhigion**
Cynhaliwyd Sêl Blanhigion yn yr Eglwys ar Dydd Sadwrn Mai 24; roedd yn brynhawn llwyddiannus. Hoffwn ddiolch i Gaynor am y gwaith caled o feithrin y planhigion dros y misoedd diwethaf ac hefyd estynwn ein diolch i bawb a gefnogodd y Sêl.

**Te Hufen**
Bydd Te Hufen yn cael ei gynal Prynhawn Sadwrn 19 o Orffennaf am 2.30yp yng nghartref Mair a Nia, Gwaunydd, Hafod Lon, Rhiwlas. Bydd yr elw yn mynd tuag at Cronfa Atgyweirio'r Eglwys.

**Clwb Crefftau**
Bydd Clwb Crefftau Eglwys St. Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod yn wythnosol ar brynhawn Gwener am 2yp yn yr Eglwys. Dewch a'ch crefft neu dewch i ddysgu crefft newydd dros banad a sgwrs.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch, a bydd y Tê Bach nesaf a'r 2ail o Orffennaf 2025. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch a'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

Daeth Sophie Pawson o Rhiwlas yn gyntaf mewn dosbarth dan 18 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr iddi! Daeth Soffia Môn Roberts o Lanfairpwll yn 3ydd yn ei dosbarth a'r canlynol yn ennill canmoliaeth uchel yn eu dosbarthiadau, megis Corey Keys o Garmel, Thomas Edwards o Fangor a Llew Jones o'r Felinheli.

**Ras Hwyl Pentir**
Bydd y ras hwyl flynyddol yn cael ei chynnal ar nos Fercher, Gorffennaf 9fed, yn cychwyn am 19.00. Mae'n ras 4.5k ar hyd llwybrau a ffyrdd cefn gwlad ac yn boblogaidd iawn gyda rhedwyr clwb a rhedwyr annibynnol.

Mae elw'r ras yn cael ei ddosbarthu rhwng elusennau lleol ac yn 2025 Hosbis Dewi Sant fydd yn elwa.

Mae'r cofrestriad yn agored nawr gyda'r pris yn £7.50 mlaen llaw a £15 ar ddiwrnod y ras. Mae'r ras yn addas ar gyfer plant gydag oedolyn a'r pris yn £3.00 neu £5.00 ar ddiwrnod y ras. Edrychwch ar y cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth.

**Profedigaeth yn Rhyd y Groes**
Ar ddiwedd mis Mai daeth newydd trist iawn fod Linda Sammonds wedi ein gadael ar ôl salwch blin iawn. Roedd Linda yn hynod ddewr, yn ddiolchgar am y gofal a gafodd a dioddefodd ei salwch gydag urddas.

Fe symudodd Linda i fyw i'r ardal rai blynyddoedd yn ôl a bu iddi llwyr ymroi ei hun i weithgareddau'r ardal. Bu'n aelod gweithgar o griw Parchu Pentir yn trefnu'r 'Cinio Mawr' blynyddol, yn codi arian i Gymdeithas Macmillan ac yn cefnogi mentrau amgylcheddol. Mae'r llecyn blodau gwyllt hardd o flaen tai Hen Gapel yn dystiolaeth o'i dycnwch a'i hymroddiad i'r amgylchedd.

Bydd colled enfawr ar ei hol oherwydd ei chariad at yr ardal a'i phobl ac anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Steve a'i theulu
Bydd colled enfawr ar ei hol oherwydd ei chariad at yr ardal a'i phobl ac anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Steve a'i theulu.

1969
**M.HUGHES A'I FAB**
**CONTRACTWYR TOI**
**Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633**
**☎ (symudol) 07702 583765**
**mhughesandson@hotmail.com**
**Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.**



**Cwch Prydain yn dathlu llwyddiant ym Mwlgaria. Cedol yw'r 4ydd o'r chwith.**

## Cedol Dafydd

Bu i Cedol Dafydd ymddangos ar raglen newyddion S4C yn ddiweddar yn egluro ei gynlluniau ar gyfer ei yrfa rhwyfo. Ar hyn o bryd mae'n aelod mewn cwch i bedwar a'r bwriad dros y pedair blynedd nesaf ydy anelu at ennill cystadlaethau rhyngwladol a phwy a ŵyr, gemau Olympaidd Los Angeles.

Pob llwyddiant iti Cedol.

Ar ôl darlledu rhaglen newyddion S4C bu i gwch mae Cedol yn aelod ohoni ennill medal aur yng Nghystadleuaeth Rhwyfo Ewropeaidd ym Mwlgaria.

Dyma'r tro cyntaf i gwch i bedwar Prydain ennill y gystadleuaeth ac yn fwy na hynny, fe dorrwyd record ar yr un pryd. Bydd Cedol a'i gyd aelodau'n mynd ymlaen i Varese, yr Eidal i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Cwpan y Byd Rhwyfo ym mis Mehefin.

**MODURDY FFRYDLAS**
**Profion M.O.T.**
**PERCHNOGION**
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Eglwys Agored**

Mae tymor Eglwys Agored wedi cychwyn ers Pasg ac estynnwn groeso i bawb i ymweld â'r adeilad er mwyn darganfod hanes yr eglwys a'r fynwent, gweld cofeb Archesgob John Williams (John Iorc) ac i fyfyrio'n dawel mewn awyrgylch ysbrydol ac hanesyddol. Mae'r eglwys ar agor pob dydd o ganol bore hyd y prynhawn hwyr.

**Drws y Clochdy**

Ar ôl hirymaros mae drws hanesyddol y clochdy wedi teithio i weithdy'r saer ac erbyn hyn yn ôl yn ei le. Mae saer cwmni Highlife Rope Access wedi gwneud gwaith arbennig wrth atgyweirio y drws; diolch yn fawr i Steve Hogarth am ei ofal a'i fedrusrwydd. O hyn ymlaen bydd mynediad diogel a strwythurol sefydlog i'n clochyddion. Mae'r clychau yn hanesyddol bwysig i'r ardal drwy gadw'r traddodiad o ganu mawl a dathlu digwyddiadau lleol.

**Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE)**

Canodd clochyddion St Tegai y clychau am 6.30yh ar Fai 8fed i goffáu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE). Roedd yr amser yn adlewyrchu pryd canodd y clychau ar y Diwrnod VE cyntaf 80 mlynedd yn ôl. Roedd yn ganiad o thua 45 munud (caniad chwarter). Daeth sawl pentrefwr ac ymwelydd i'r eglwys agored i wrando a myfyrio. Diolch i Liam, Zoe, Lynda, Anthony, Christopher a Martin (Capten) am eu parodrwydd i dalu teyrnged drwy ganu'r clychau.

Cafwyd dathliad arall ar Mai 23ain pan gafodd y myfyrwyr ymysg y clochyddion gyfle i nodi ddiwedd y tymor academaidd drwy ganu'r clychau. Roedd y plant drws nesaf yn Ysgol Llandygai wrth eu bodd yn gwrando ar y clychau hapus!



Clochyddion St Tegai ar Ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE 80)

**Rhodd St Tegai 2025**

Bydd diwrnod ein nawddsant St Tegai yn cael ei ddathlu ar Fehefin 5ed eto eleni. Bydd y Sul canlynol, sef Mehefin 8fed, yn gyfle i aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda chysylltiadau personol â phentref Llandygai, gynnig rhodd ariannol i ddathlu bywyd a gwaith y sant ar ddydd ei ŵyl. Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719); Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369) neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys.

Wrth gwrs mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: **30-90-43 00098435**. Diolch i bawb o'r ardal, rhai yn ddi-enw, sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos. Bydd y rhoddion er budd y Gronfa Atgyweirio yn benodol at atgyweirio'r clochdŷ.

**Gwasanaethau**

**Ar y Sul**

Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**

Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis.

**Manylion Cyswllt**

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521/ 07847125225 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts, SaraRoberts@churchinwales.org.uk.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu?**

Cysylltwch â **Neville Hughes** (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com







**L. STURRS A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
**ADEILADWYR**
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# YSGOL LLANDYGAI

Bu'n hanner tymor byr ond prysur yn Ysgol Llandygai gydag amrywiaeth eang o weithgareddau yn cymryd lle. Ddechrau mis Mai, cymerodd holl ddisgyblion yr ysgol ran yn sialens Mini Marathon Llundain gan redeg, loncian, sgipio a cherdded 2k o amgylch tir yr ysgol. Buom hefyd yn dathlu Diwrnod Rhifedd Cenedlaethol gyda'r disgyblion wedi bod yn brysur yn creu hetiau ar y thema 'Arian'. Llongyfarchiadau i Hunter, Grace, Oliver ac Emilia ar fod yn fuddugol ar ôl cystadleuaeth arbennig iawn.

### Dosbarth Tirion

Fel rhan o'u gwaith thema am Llandygai, cafwyd ymweliad gan Caryl o'r Archifdy yng Nghaernarfon i roi cyflwyniad am sut fyddai Ysgol Llandygai wedi bod yn ystod Oes Fictoria. Yn ddiweddar, cafodd y disgyblion weithdy gwych am fod yn Ddinasyddion Ecolegol gyda Joe o 'Filmage Productions' a Tracy, Shari ac Ian o Brifysgol Wrecsam. Bu i'r plant arbrofi gyda camerâu digidol a dysgu am y gwahanol fathau o 'shots' sydd wrth dynnu llun/gwneud ffilm. Cafwyd hwyl hefyd yn gwneud gweithgareddau gyda'u drôn gwerth £2,000 ar y buarth hefyd. Fel rhan o'u gwaith cynllunio crysau T ar ddiwedd y tymor diwethaf, buont yn cydweithio gyda Catrin o M-Sbarc er mwyn cynhyrchu eu crysau T eu hunain. Mae'r crysau T yn werth eu gweld. Cafodd disgyblion y dosbarth yma hefyd gyfle i dreulio deuddydd yng Nghanolfan Conway gan fwynhau gweithgareddau y ganolfan wrth ddysgu sgiliau cydweithio, dyfalbarhau a chefnogi ei gilydd wrth wneud gweithgareddau anturus.



### Dosbarth Enfys a Dosbarth Gwawr

Mae'r dosbarthiadau Dysgu Sylfaen wedi cychwyn eu gwaith ar y thema Ynysoedd. Maent wedi cychwyn creu modelau 3D o ynys gan ddefnyddio papur a chardfwrdd ac yn edrych ymlaen at greu modelau bach o dai, goleudai, coed a phopeth arall sydd ar ynys. Yn amlwg, mae'n rhaid sôn am fôr lardon a thrysor wedi ei guddio ar ynys! Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn dysgu cerdd 'Cati Dalati' sy'n sôn amdani hi fel capten llong y môr lardon a'i holl ffrindiau eraill sydd ar y llong gyda hi.



## Dosbarth Awel

Mae'r dosbarth wedi bod yn mwynhau sesiynnau wythnosol gydag Endaf o Wasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn ac wedi cael boddhad o gael y cyfle i gyfansoddi cerddoriaeth trwy gyfrwng apiau ac offer digidol. Treuliodd y dosbarth ddiwrnod yng Nghanolfan Conway yn Llanfairpwll yn datblygu sgiliau cydweithio a chodi hyder gan wneud gweithgareddau megis cwrs rhwystrau a chanwio. Braf oedd cael y cyfle i fwynhau yn yr awyr agored.


DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr





**Clwb Golff Llanfairfechan**
Yn y llun y côr yn rhoi blas o'u rhaglen i'r gynulleidfa ar y glaswellt y tu allan i 'r clwb ar y noson.

Ynghanol y cyfnod heulog hir ym misoedd Ebrill a Mai bu'r côr yn brysur yn perfformio yng Nghlwb Golff Llanfairfechan. Yn ystod y dydd bu nifer o gefnogwyr yn chwarae golff i gefnogi'r achos a derbyniodd y buddugwyr wobrau hael wedi eu rhoddi gan wahanol gyrff. Meddai Gareth Williams trefnydd y diwrnod, "Mi fuon ni'n ddigon ffodus bod y tywydd yn arbennig o garedig ac mi gawson ni ddiwrnod llwyddiannus iawn oedd yn help i'r clwb golff yn ogystal â'r côr."

**Cyngerdd Y Tri Chôr**
Côr y Penrhyn yn perfformio yn eu rhan hwy o gyngerdd y tri chôr at yr elusen Ymchwil i Ganser yng Nghadeirlan Deiniol

Hon oedd y noson gyntaf i Gôr y Penrhyn berfformio 'Seal Lullaby' gan Eric Whittaker a llwyddwyd i roi perfformiad canmoladwy o ddarn synhwyrus a theimladwy.

Hefyd, hon oedd y noson gyntaf i ddau aelod newydd gael canu'n gyhoeddus efo'r côr. Roedd Peter a Huw T2 wedi cael blas ar ganu'n gyhoeddus ac mae'r ddau'n edrych ymlaen i ganu efo'r côr eto. Soniodd Huw fel roedd o wedi breuddwydio am gael canu efo Côr y Penrhyn ers blynyddoed a rŵan "dwi'n cael sylweddoli'r breuddwyd hwnnw a chanu yng nghwmni rhai o gantorion gorau Cymru."

**Alwyn Hughes o Fangor sy'n canu yn T1**
Mae Alwyn yn 62 oed ac yn gyrru lorïau trosglwyddo i Huws Gray

**Aelodau 50 mlynedd:** Tom Williams a Brian Pritchard y ddau yn T2 yn cael eu gwobrwyo â thlws llechen yn arddangos cerdd neu rigwm i ddathlu hynny. Gwaith Alun Davies oedd yr ysgythru. Yn y llun gyda nhw mae Gareth Williams (Cadeirydd) ac Owain Arwel (Arweinydd)

Mae Tom Williams a Brian yn gantorion medrus a phrofiadol ac mae'r ddau'n aelodau o Hogia'r Bonc yn ogystal â'r côr. Roedd Tom braidd yn shei o adael i bawb wybod ei fod yn ddigon hen i ganu am gyfnod mor hir ond fel yr eglurodd. "Dwi wedi cael cyfle i ddysgu a mwynhau canu yng nghwmni sawl aelod ond yn anffodus mae ambell un fel Derek Griffiths wedi ymddeol o'r côr erbyn hyn. Dysgais lawer gan Derek," meddai.

Wrth gloi ei sylwadau dywedodd Tom, " Dwi isio diolch i Brian yn fy ymyl yn y fan hyn ac i Walter Williams am eu cefnogaeth ac am yr anogaeth ges i ganddyn nhw dros y blynyddoedd. Byddai wedi bod yn anodd i hogyn swil fel fi heb y cymorth hwnnw."






**Cofio Mike Peters**
Yn ymarfer y côr yn niwedd Mai neilltuodd y côr funud i gofio'r diweddar Mike Peters, sylfaenydd a phrif leisydd 'The Alarm', y grŵp pop enwog o ardal Prestatyn a Dyserth. Bu farw Mike Peters o glefyd mileinig y canser yn niwedd mis Ebrill ac yntau'n 66 mlwydd oed.



**Canu ym Mhwllheli ar Sianel 4 Capel Salem**
Ar ddiwrnod olaf mis Mai derbyniodd y côr wahoddiad i ganu mewn hen gapel wedi'i addasu'n dŷ ym Mhwllheli. Meddai Alun Davies, rheolwr y côr, "Bydd nifer o ddarllenwyr y golofn hon yn gwybod am y rhaglen **'Our Welsh Chapel Dream'** sydd wedi esgor ar gyfres o raglenni ar Sianel 4." Aeth Alun ymlaen i egluro ymhellach,"yn dilyn anturiaeth gan Keith Brymer Jones a'i bartner Marj o Loegr i droi'r hen gapel yn gartref iddynt eu hunain mae'r prosiect nawr bron ar ben. Mae Keith yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed a dyna un o'r rhesymau pam rydyn ni fel côr yn mynd i Bwllheli. Gan fod Keith yn grefftwr ei hun ac yn cyflwyno 'The Great Pottery Throwdown' ar y teledu mae dangos gofal a chariad at yr adeilad a'i bensaernïaeth yn dod yn naturiol iddo. Llun Cor Keith Brymer



Keith Brymer Jones a'i bartner Maj, sêr y rhaglen 'Our Welsh Chapel Dream' yn siarad ag aelodau'r côr yn Neuadd Ogwen yn ddiweddar.

**Teithiau cerdded**
Dywedodd Emyr Roberts T2, "Bu'r côr yn canu gyda Mike Peters rai blynyddoedd yn ôl pan oedd o'n trefnu teithiau cerdded i ben yr Wyddfa i godi arian at yr elusen, Ffydd, Gobaith a Nerth." Elusen a sefydlwyd ganddo yn dilyn brwydr ei wraig ac yntau yn erbyn canser ydy hwnnw. Canodd y côr yn Llanberis i groesawu'r cerddwyr wrth iddynt gyrraedd i lawr ac wedyn yn Chwarel y Penrhyn ger gorsaf isaf y Wifren Wib, pan fu nifer o artistiaid eraill yn cymryd rhan mewn diwrnod o ganu a mwynhau.

Meddai Emyr ymhellach, "Roedd Mike Peters yn berson hyfryd a gwylaidd ond roedd o hefyd yn llawn o obaith a ffydd y gelld concro canser, nid yn unig yn ei achos ei hun a'i wraig ond hefyd yn achos miloedd o bobl eraill drwy'r byd."

## Gair neu ddau
### John Pritchard

# OS YW'N BOSIBL

Mae rhai'n gwirioni ar ystadegau ac eraill yn eu casáu. Ond mae yna rai ystadegau na ddylem eu hanwybyddu, fel y rhestr sy'n cofnodi'r niferoedd a laddwyd yn sgil rhyfeloedd presennol ein byd. Yn 2024, yr Wcráin oedd ar frig y rhestr gyda 72,960 o farwolaethau. Nid yn annisgwyl, Palestina oedd yn ail gyda 29,772 o farwolaethau. Lladdwyd 4,737 yn Rwsia; ond, er syndod o bosib, yr unfed ar ddeg ar y rhestr oedd y wlad honno gan fod wyth gwlad arall wedi dioddef mwy o golledion rhyfel na hi'r llynedd. Ac am fod ein cyfryngau newyddion yn rhoi cyn lleied o sylw i fwy nag un o'r rhyfeloedd hynny, mi ddylem ein hatgoffa ein hunain ohonynt: Myanmar, Swdan, Ethiopia, Nigeria, Mecsico, Burkina Faso, Syria a Somalia. Cyfanswm marwolaethau'r un wlad ar ddeg sydd ar frig y rhestr oedd 190,150. Ie, bron i ddau gan mil wedi eu lladd, ac yn eu plith miloedd lawer o blant. Does ryfedd y medrwn ofyn gydag Eifion Wyn, 'Ai byth y bydd bywyd mor ddibris?'

Ond er gwaetha'r holl ladd, dal i gynyddu wna'r fasnach arfau. Dal i werthu arfau i wledydd rhyfelgar wna llywodraethau'r byd. A chryfhau, yng nghoridorau grym y Deyrnas Unedig, y mae'r sôn am adeiladu rhagor o ffatrïoedd i gynhyrchu rhagor o arfau ac am baratoi – hyd yn oed yn y gwledydd hyn – at ryfel. Os oes un peth yn profi'n ddiamheuol wirionedd yr hyn a ddywed y Beibl, mai mewn byd syrthiedig sydd mor bell o'r hyn a fwriadodd Duw ar ei gyfer yr ydym yn byw, y tuedd oesol i ryfela a lladd ydi hwnnw.

Roedd Iesu Grist ei hun yn gwybod ac yn cydnabod y byddai rhyfeloedd yn rhwym o ddigwydd. Wrth sôn am y dyddiau a fyddai'n dilyn ei farwolaeth a'i atgyfodiad, sef yr ugain canrif a mwy hyd at ein dyddiau ni ynghyd â'r holl flynyddoedd sydd eto i ddod cyn ei ailddyfodiad, meddai Iesu: 'Byddwch yn clywed am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd; gofalwch beidio â chyffroi, oherwydd rhaid i hyn ddigwydd, ond nid yw'r diwedd eto. Oblegid cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas, a bydd adegau o newyn a daeargrynfâu mewn mannau' (Mathew 24:6-7).

Mae Iesu Grist a'r Beibl yn ddigon gonest i'n rhybuddio y bydd yna bob amser ryfeloedd yn y byd amherffaith sydd ohoni. Nid bod hynny'n golygu ein bod i fodloni arnynt nag i'w hyrwyddo. Y rheol ar gyfer osgoi cynnen ac anghydfod yn y bywyd Cristnogol ydi'r hyn a fynegir gan Paul, 'Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phawb' (Rhufeiniaid 12:18). Mae'n rheol y gellir ei chymhwyso hefyd at ymwneud gwledydd a chenhedloedd â'i gilydd.

Wrth ddweud 'Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi', mae'r Beibl yn cydnabod nad yw'r pethau hyn yn rhwydd. Mae'r anghydfod a'r anghyfiawnder a'r elyniaeth sy'n esgor ar ryfeloedd yn gymhleth a hirhoedlog. Nid rhwydd ydi rhoi terfyn ar yr un rhyfel a sicrhau cymod rhwng cenhedloedd; a dim ond y ffŵl mwyaf a feiddiai ddweud y medrai wneud hynny mewn un diwrnod. Ond mae'r nod a osodir ar ein cyfer yn y Beibl yn glir: ceisio heddwch â phawb, hyd y mae'n bosib a hyd y mae'n dibynnu arnom ni. Gweddïwn mai'r ysbryd a'r dyhead hwn fydd yn nodweddu arweinyddion ein dydd. Ac mewn ymateb i'r geiriau 'os yw'n dibynnu arnom ni', mynnwn ninnau wneud ein rhan trwy bwyso ar ein gwleidyddion i wneud popeth o fewn eu gallu i geisio heddwch â phawb, ac i bwyso ar arweinyddion eraill ledled y byd i wneud yr un modd.

---

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**Clwb Coffi Talybont**
FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
Mehefin 30
Croeso cynnes i bawb

**CANOLFAN CEFNFAES**
**Gyrfa Chwist**
Mehefin 24
Gorffennaf 8, 22, 29
am 6.45yh.
Croeso i bawb

**FESTRI BETHLEHEM**
Talybont
**TE MEFUS**
Nos Fawrth, 1 Gorffennaf
am 7 o'r gloch
Mynediad: £2.00

**FESTRI JERUSALEM**
**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Sadwrn, 21 Mehefin
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

**Sefydliad y Merched**
CARNEDDI
Yn cyfarfod ar y nos Iau cyntaf o'r mis yn
Festri Capel Jerusalem
am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i aelodau newydd

**JOHN ROBERTS**
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Ymddiheuriadau nad oedd newyddion o Gerlan yn Llais Ogwan mis diwethaf. Er i mi ei yrru, mae'n debyg nad oedd y wybodaeth wedi cyrraedd y golygydd. Felly mae'r mis yma yn chydig o "roll over"!

**Dathlu Doethuriaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon O'Marah o Gwernydd a gyflwynodd ei Thesis Doethuriaeth Seicoleg yn ddiweddar. Mae Rhiannon wedi bod yn astudio a dysgu ers rhai blynyddoedd bellach ac yn llwyr haeddu ei doethuriaeth. Da iawn chdi Rhiannon - mae'r teulu'n falch iawn ohonot.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i John a Davina Stryd Morgan ar ddod yn nain a thaid eto. Ganwyd ail fab i Carwyn a'i wraig Holly'n ddiweddar. Mae'r teulu bach ar fin symud o Lundain i fyw i'r Gogledd ac felly mi fydd nain a thaid wrth eu bodd yn cael gweld mwy o'r plant dwi'n siŵr.

Daeth babi newydd i Ffordd Gerlan hefyd. Llongyfarchiadau i Imran a Lois ar enedigaeth Amos Llywelyn. Mae nain taid (Sian ac Arfon) a theulu'r ddwy ochr wedi gwirioni.

**Dathlu penblwydd arbennig**
Penblwydd hapus yn 18 oed i Theo Florence, Stryd Hir. Gobeithio dy fod wedi cael hwyl yn dathlu efo teulu a ffrindiau.

Un fu'n dathlu penblwydd arbennig llawer mwy oedd Peter Brown, Gwernydd. 'Roedd Peter yn 80 ar y 27ain ac yn yr haul yn Lanzarote ar y diwrnod mawr. Cafodd ddathlu efo teulu a ffrindiau ar ôl dod adra a daeth criw at ei gilydd i Bont Waen i gael panad a chacen gydag o. Pam Pont Waen medda chi? Wel, dyma un o hoff lefydd Pete a bydd yn mynd yno'n ddyddiol i gerdded y ci a gweld ei ffrindiau. Gobeitho dy fod wedi cael penblwydd arbennig Pete.

**Ffilm newydd**
'Roedd 'na thipyn o gynnwrf yn yr ardal yn ddiweddar wrth i Cai Shea o Ffordd Gerlan ffilmio ffilm fer ar gyfer ei flwyddyn olaf yn y brifysgol. Mae Cai yn astudio cwrs cyfryngau yn Llundain a'i syniad o oedd creu ffilm fer "Wright Brothers The Musical" yn dilyn hanes y brodyr Wright sy'n adnabyddus am greu a hedfan yr awyren lwyddiannus cyntaf. Fel rhan o'r ffilm, bu Cai yn adeiladu model o awyren a chafodd sawl person lleol gyfle i ymddangos fel cymeriadau yn y ffilm. Felly cadwch olwg allan am y ffilm fer yma - da ni'n edrych 'mlaen yn fawr i'w weld!!

**Symud o Gerlan**
Pob dymuniad da i Simon ac Yvonne Dignam sydd wedi symud ar ôl blynyddoedd o fyw'n Stryd y Ffynnon i Fangor erbyn hyn. Gobeithio y byddwch yn setlo'n dda'n y ddinas.

**Cydymdeimlo**
'Rydym yn gyrru ein cydymdeimlad dwysaf at deulu Linda Peterkin a fu farw'n ddiweddar yn 74 oed. 'Roedd gwreiddiau Linda'n ddwfn yn y pentref ac yn byw yn 22 Abercaseg erbyn hyn. Mam annwyl Anna a nain i Lois, Liam ag Ella. Chwaer annwyl Phil, Mike, Carys, Gareth, Carol a'r diweddar Elwyn. Yn gymeriad ffraeth ac annwyl iawn, gyrrwn ein cofion cynhesaf at y teulu i gyd yn ystod yr amser anodd yma.

'Roedd cwmwl du dros y dyffryn ar y 10fed o Fai wrth i ni glywed y newyddion erchyll am farwolaeth Carwyn Huws Rallt Uchaf mewn damwain beic modur – ac yntau ond yn 20 oed. Mae'n meddyliau gyda'i rieni Hefin a Georgina, ei frawd Arlun a'n cydymdeimlad dwysaf gyda'r teulu i gyd.

**Carnifal Pont Tŵr**
Mae Helen Williams, Braichmelyn yn gofyn a fyddai unrhyw un sydd efo gwybodaeth neu luniau o hen Garnifal Pont Tŵr i gysylltu gyda hi os yn bosib. Mae'n bosib cysylltu efo Helen ar Facebook neu roi caniad iddi ar 01248 601735.

**Llogi'r neuadd**
Cofiwch fod Y Caban ar gael i'w logi ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd, clybiau neu barti penblwydd am gost isel iawn (£10 - £20)

## Grant Cymunedol LleCHI LleNI

Mae Pwyllgor Caban Gerlan wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am Grant Cymunedol LleCHI LleNI er mwyn cael dathlu treftadaeth chwarelyddol Gerlan. Mae'r grant yn cefnogi cymunedau chwarelyddol yn dilyn dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Prif nod y grant yw gwella ymgysylltiad cymunedol, creu balchder lleol yn nhreftadaeth y tirweddau llechi, gwella lles a datblygu sgiliau. Mae'r Caban yn cynllunio i ddefnyddio'r arian i greu printiau treftadaeth i'r neuadd, creu arddangosfa, trefnu sesiynau celf a hyfforddiant efo llechi, teithiau cerdded ac adnoddau ar gyfer teithiau cerdded lleol. Os oes gennych ddiddordeb neu syniadau yn y cynllun yma, mae croeso i chi gysylltu gyda Caren Brown ar 07789916166 / carenelaine@hotmail.com.

## Caban Gerlan

**Caffi Trwsio Gerlan**
Cynhaliwyd caffi trwsio llwyddiannus iawn yn y Caban dydd Sul y 27ain o Ebrill a dydd Sul y 25ain o Fai a chafodd nifer o bethau eu trwsio yno yn cynnwys cotiau, pâr o drowsus, cwpwl o lampiau a toaster. Mae rhai o'r gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant "PAT Testing" ac felly bydd yn bosib profi offer trydanol gan sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Does dim rhaid i chi ddod a rhywbeth i'w drwsio, mae croeso i chi alw i mewn am baned ac edrych ar beth sydd yn mynd ymlaen, sgwrsio a thrafod syniadau. Yn ogystal â cheisio lleihau gwastraff a helpu'r amgylchedd, mae'n gyfle gwych i gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a gwirfoddoli os ydych yn dymuno. Da ni'n ddiolchgar iawn i Robyn a Beca o Partneriaeth Ogwen sydd yn helpu efo'r gwaith gweinyddol a chasglu gwybodaeth ac yn benthyg offer sydd ar gael drwy'r Llyfrgell Petha.

Bydd y Caffi Trwsio nesaf rhwng 11 ac 1 dydd Sul y 29ain o Fehefin.







# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad i Fred Buckley yn dilyn marwolaeth ei wraig Bessie yn ei chartref ym Maes Ogwen ar ôl cyfnod o waeledd. Colled fawr i Fred, y teulu a ffrindiau.

**Geni**
Ganwyd Owain Llŷr ar y 18fed o Ebrill i Ceri a Gerwyn Medway, Ffordd Tan Rhiw, brawd bach i Osian Llŷr; Nain a Taid Bethesda wedi gwirioni mae'n siwr! Ond trist iawn oedd clywed bod Gerwyn wedi colli ei fam ym Mhenrhosgarnedd ar y 9fed o Fawrth ar ôl gwaeledd hir.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Nos Lun, Mai 12, daeth Carrie Rymes o Fethesda i son am ei busnes gwneud caws sef 'Caws Cosyn '. Croesawyd Carrie i'r gangen gan y llywydd Carol Jones a da oedd gweld nifer dda wedi dod ynghyd i fwynhau gwrando ar Carrie yn son am ei magwraeth yn Ne Lloegr, ei gwaith yn ymwneud a'r amgylchedd a'i hawydd i ddysgu sut i fynd ati i wneud caws. Penderfynodd fynd i Ffrainc i ddysgu'r grefft o ddefnyddio llefrith dafad i wneud caws a hynny mewn gwahanol rannau o'r wlad. Cychwynodd weithio ar y caws yn gyntaf yng Ngholeg Menai yn Llangefni ac yna yn yr adeilad presennol ym Methesda, sef yr hen Eglwys Babyddol. Mae ei siop ar agor yn ddyddiol o 2 tan 6 o'r gloch ac mae'n cynhyrchu mwy nag un math o gaws. Cawsom brofi y cynyrch a phawb wedi



mwynhau a mynd adra gyda Caws Brefu Bach etc. Dyma noson ardderchog arall yn y gangen a diolchwyd i Carrie am yr hanes, profi y caws a medru prynu ei chynyrch.
Ar Fehefin 3 byddwn yn croesawu Dewi Gwyn Roberts a thestun y noson fydd 'Sandringham a'r byd'? Dirgelwch i bawb!
Bydd Gwibdaith y gangen i'r Bala a Bermo, Dydd Sadwrn, Gorffennaf 5 gyda mwy o fanylion gan Christine ar 01248600580/07984033405.

Llongyfarchiadau i'r awdures, Gwenno Gwilym, Bwthyn Cororion, sydd wedi llwyddo i gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Llyfr y Flwyddyn, gyda'i nofel 'V a Fo' yn ddiweddar. Pob dymuniad da Gwenno!

**Priodas**
Ar ddydd Sadwrn Mai 24, bu priodas Lois Glyn – merch hynaf Glyn a Bethan Catrin, Nant yr Eira, Tal y cae a Dewi Arwel Jones, Allt y Fyrddin, Felin Wen, Caerfyrddin. Roedd y briodas ym Mhortmeirion a mi ddaru'r glaw gadw draw tan fin nos. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.



## Capel Shiloh Newydd

Oedfa am 5 o'r gloch oni noder yn wahanol
Mehefin 22: Nerys Griffiths, Caernarfon
Mehefin 29: Ellie Jones, Coed y Parc
Gorffennaf 6: Dr Ian Morris
Gorffennaf 13: Megan Williams, Porthaethwy
Gorffennaf 20: Trefniant Lleol
Gorffennaf 27: Philip Barnett, Swydd Efrog

*Gwellhad*
Gwellhad buan i Iris Harper ac Eirwen Williams, y ddwy wedi cael llawdriniaeth cateract ac i Islwyn Evans fu am gyfnod byr yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch wella.

*Drws Agored.*
Mae y Drws ar agor bob bore Gwener ar gyfer paned, sgwrs a chwmni rhwng 10 a 12 o'r gloch.

# Cylch Meithrin Tregarth

*Dathlu Penblwydd Arbennig*
Eleni, 2025, mae Cylch Meithrin Tregarth yn dathlu penblwydd yn 50 oed ! Anodd credu fod hanner canrif wedi hedfan mor sydyn ers y dyddiau cynnar rheini pan sefydlwyd y cylch yn Festri Capel Penygroes, Tregarth. Criw bach o famau ifanc lleol benderfynodd fod angen cylch yn y pentref ac aed ati yn synth I gysylltu a Mair Jenkins Jones oedd yn gyfrifol am sefydlu Meithrinfeydd Cymraeg yng Gwynedd. Dan ei harweiniad hi sefydlwyd pwyllgor lleol gyda Gwyn Williams, Chwarel Goch, yn gadeirydd cadarn a brwdfrydig ynghyd ag eraill yn y pentre oedd yn frwd i weld cylch lle gallai'r plantos bach a'u Mamau ddod at ei gilydd.

Dyma restr o bwyllgor cyntaf Cylch Meithrin Tregarth yn Mehefin 1975.
Cadeirydd: Gwyn Williams, Chwarel Goch Isaf
Ysgrifennydd: Maud Griffiths, Gilfach, Dob.
Alwena Williams, Erw Wen, Ffordd Tanrhiw
Trysorydd: Beryl Hughes, Ffordd Tanrhiw
Pwyllgor: Kittie Jeffries, Gwenda Davies Rhiannon Tocker,Idris Williams, Helen Davies, William Williams, Alan Davies, E.E, Rowlands.
Dwy athrawes gyntaf y Cylch: Gwenda Davies ac Avril Edwards.
Bydd, mi fydd na ddathlu mawr eleni. Gwnewch nodyn o'r dyddiad.

**Diwrnod Dathlu Cylch Meithrin Tregarth yn 50 Oed**
Canolfan Gymunedol Tregarth
**Dydd Sadwrn, Gorffennaf 19**
10 o'r gloch tan 2 o'r gloch


Arddangosfa lluniau o'r Cylch ar hyd y blynyddoedd. Stondinau, gemau, raffl, peintio wynebau, castell neidio, paned a diodydd, a llawer mwy. Byddem yn falch iawn o gymorth rhieni, teisennau, gwobr raffl etc. Os oes gennych luniau o'r Cylch ar draws y blynyddoedd byddwn yn falch iawn o'u benthyg at yr arddangosfa. (Cofiwch roi eich henw ar gefn y lluniau)

Am fwy o fanylion cysyllter gyda
**Gwenda Davies** – gwendaglyn@ hotmail.com
01248716767
**Sophie Hughes** – cylchmeithrintregarth@yahoo.co.uk
07897720457
**Claire** – 07727992977
Diolch am bob cymorth ar y diwrnod.
Dewch yn llu i ddathlu llwyddiant y Cylch Meithrin lleol.



# CHWILAIR

## RHAGLENNI RADIO CYMRU



| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | B | W | M | T | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X |
| J | U | H | O | I | I | U | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W |
| H | U | E | Z | R | M | X | D | C | A | R | Y | L | V | A | D | D | N | A | P |
| A | U | L | Q | A | E | U | S | U | S | O | F | R | P | Y | Q | Z | G | R | H |
| C | U | E | M | I | N | C | W | W | R | N | O | Y | R | I | A | S | Z | U | T |
| F | D | D | X | N | W | U | O | P | Y | O | W | R | H | C | Q | H | W | E | H |
| O | Y | D | E | I | A | E | G | T | E | N | W | O | M | H | E | P | T | T | C |
| R | B | C | B | W | H | C | U | U | H | J | Y | E | P | L | T | M | I | V | V |
| A | D | Y | C | E | N | B | B | F | R | I | F | S | N | O | G | J | V | I | I |
| N | R | N | R | R | Y | X | I | M | H | T | T | O | U | S | K | O | P | W | R |
| N | C | W | M | Y | R | K | C | B | O | R | C | X | V | L | R | Y | H | S | T |
| Y | M | A | R | D | P | E | F | Y | J | D | Z | H | B | S | C | W | O | S | C |
| C | R | L | A | D | T | I | X | N | I | L | X | J | J | O | M | B | W | T | E |
| D | X | M | D | X | S | K | F | U | P | C | Q | Y | O | M | I | L | F | C | E |
| A | R | Z | Q | R | O | O | C | T | D | G | W | S | L | O | Z | E | B | R | E |
| W | A | J | K | J | P | C | L | N | L | R | V | O | G | T | J | P | W | A | P |
| L | R | G | E | S | Y | C | Y | H | T | E | A | D | A | I | N | A | C | M | G |
| A | S | O | W | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | E | U | G | Y | H |
| G | S | J | O | H | N | H | A | R | D | Y | L | Z | E | D | A | F | X | R | I |
| W | T | Z | H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | A | D |

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW DEUDDEG RHAGLEN RADIO CYMRU i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Mehefin.

Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.**

Nifer fawr ohonoch wedi methu Cwmni yn CWMNI DRAMA PENIEL, a Mary yn enw MARY JANE JONES. Gwell lwc gyda Rhaglenni Radio Cymru.

**Dyma atebion Chwilair Mai.** Cwmni Drama Peniel; Damwain Anffodus; Dilwyn Pritchard; Eifion Hughes; Gwilym Jones; Huw Sgwd; Madam Chips; Mary Jane Jones; Meddyg Esgyrn; Shan Robinson; Trip i Lan Mor; Ysgol Rachub.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Merfyn Lloyd Jones, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwen Davies, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bethesda; Nia Wyn Bagnall, Llandygai. **Enillydd Mai oedd:** Nia Wyn Bagnall, Pennard, Llandygai. LL57 4 HU.


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Dilynwch Llais Ogwan ar X

**@Llais_Ogwan**

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com

www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# Natur o'n Cwmpas



## Y Crëyr Bach

Er mai newydd-ddyfodiad cymharol ddiweddar yw'r crëyr bach (y crëyr gwyn lleiaf) (*Egretta garzetta*), mae o wedi hen gynefino â'i amgylchfyd mabwysiedig yn ein rhan ni o'r byd, a bellach wedi ennill ei blwyf ymhlith adar eraill y glannau.

Mae'n aderyn trawiadol efo'i blu i gyd yn wyn, ei big a'i goesau'n ddu, a'i draed yn felyn. Bydd plu'r rhai ifanc yn tueddu i fod yn llwydaidd. Ei gynefin arferol yw aberoedd a gwlyptiroedd, a bydd i'w weld yn bur aml ar hyd y traethau ac ar lannau pyllau, llynnoedd, afonydd a chamlesi gan mai ei brif fwyd yw pysgod mân y dŵr bas, fel silydon a chryllyll. Bydd hefyd yn bwyta llyffantod a phenbyliaid, crancod, berdys a phryfed dŵr.

Beth yw hanes yr aderyn hardd hwn? Yn gyffredin yn Affrica, Awstralia a de Ewrop, dechreuodd niferoedd mawr ymfudo o arfordir Môr y Canoldir i ogledd Ewrop. Daeth llawer ohonynt i orllewin a gogledd Ffrainc o'r 1960au ymlaen, a dechrau nythu yno yn yr 1980au. Cyrhaeddodd heidiau sylweddol wledydd Prydain yn 1989, gan ddechrau magu yn Lloegr yn 1996.

Dechreuodd nythu yng Nghymru yn 2001, ac yng nghoed Abercegin y mae'r nythfa fwyaf ein gwlad. Fe'i sefydlwyd yn 2006, ac amcangyfrifir bod yno rhwng 50 a 60 o nythod. Mae'r adar hyn yn ymadael i dreulio'r gaeaf dramor, a chanfuwyd bod un wedi teithio cyn belled â'r Ynysoedd Dedwydd oddi ar arfordir gogledd-orllewin Affrica.

Mae'r crëyr bach yn adeiladu ei nyth gwastad o frigau hirion mewn coeden, llwyn neu hesg ac yn dodwy rhwng tri a phump o wyau gwyrddlas, efo'r ddau riant yn gori am tua thair wythnos. Bydd y cywion yn llawn plu erbyn y byddant yn chwe wythnos oed.

Tybed a oedd crehyrod bach yng Nghymru cyn eu dyfodiad diweddar? Ceir sylw diddorol ar wefan historypoints.org gan Julian Hughes o'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Mae'n tynnu sylw ar y ffaith fod Thomas Pennant, yr awdur-deithiwr enwog o Downing, Sir y Fflint, wedi nodi ei fod wedi derbyn plu aderyn a saethwyd yn Sir Fôn cyn 1768, ac y tybiai mai plu crëyr bach oeddynt. Ni wyddai Thomas Pennant am unrhyw gofnod arall o'r aderyn yng ngwledydd Prydain, ond cafodd ei gynnwys yn un o gyfrolau ei *British Zoology* (1776 ac 1777). Yn ddiddorol iawn, oherwydd harddwch eu gwynder, roedd plu'r crëyr bach yn hynod boblogaidd yn y 18g a'r 19g ar gyfer addurno hetiau. Credir i'r adar fynd allan o fod oherwydd eu gor-hela gan saethwyr er mwyn eu plu.

Os nad ydych wedi bod eisoes, ewch i weld y nythfa drawiadol yn y coed ar gwr y Cei ym Mangor. Medrwch ei gweld o Lôn Las Ogwen.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com 01248 352966

**Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan nos Iau 26 Mehefin am 7yh. Mae hwn yn gyfarfod cyhoeddus i bawb a thaer erfynir i chwi drigolion y fro fynychu y cyfarfod hwn, mae eich presenoldeb yn bwysig i chwi gael gwybod beth sydd yn mynd ymlaen ac i roi awgrymiadau i'r dyfodol!

**Yn yr Ysbyty**
Yn ystod y mis diwethaf treuliodd Mike Bowen, Tyddyn Llywelyn, Waen Wen amser yn Ysbyty Gwynedd a Beryl Bryant, 12 Bro Infryn yn Ysbyty Glan Clwyd, mae'r ddau adref yn awr ac yn gwella yn dda. Gwella hefyd mae Carole Singleton, Yr Hen Efail, Caerhun wedi damwain lle bu iddi dorri asgwrn ei throed, da yw clywed ei bod wedi gwella ac yn mynd i dawnsio unwaith eto gyda'i gŵr Bob!

**Llongyfarchiadau**
Mae Cadi Griffith, Bryn Gwredog Isaf, Waen Wen wedi pasio ei phrawf gyrru tractor ar y "John Deere"! Da iawn chdi Cadi! Mae hi yn aelod brŵd o Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen ddaeth i'r brig yn y Rali ym Mhorthinllaen eleni. Da iawn nhw!

**Bingo**
Cafwyd noson dda iawn yn y Bingo Bach yn y Ganolfan ar 30 Mai gan godi £240 tuag at Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfranaid tuag at y noson. Cynhelir y Bingo nesaf ar 27 Mehefin am 7yh yn y Ganolfan gyda'r elw yn mynd i'r Bâd Achub (RNLI). Fel arfer croesawir unrhyw gyfraniad tuag at y noson drwy wobrwyon tuag at y raffl, Bingo neu tombola, diolch yn fawr i chi gyd am eich cefnogaeth.

**Cylch Glasinfryn**
Stephen Greig oedd siaradwr mis Mai yng nghyfarfod o'r Cylch a gynhaliwyd yn y Ganolfan. Siaradodd yn frwdfrydig iawn am "Reilffordd Eryri", gan ein tywys o'r dyddiau cynnar pan ddefnyddiwyd y trenau yn chwareli Y Penrhyn a Blaenau Ffestiniog hyd at y presennol, pan mae'r trenau hyn yn tywys teithwyr o Gaernarfon i Borthmadog. Rhoddwyd y diolchiadau gan Marian Bryfdir, Mair a Glenys ddarparodd y lluniaeth a'r raffl.

Mis nesaf ar 11 Mehefin cawn sgwrs ar Fwyta'n Iach gydag Angharad Griffiths. Yna ar 9 Gorffennaf awn i ymweld ac eglwys Sant Grwst, Llanrwst i gael sgwrs am yr eglwys hynafol hon gan Mr Bleddyn Hughes, hanesydd lleol. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ar y trip.

# YSGOL LLANLLECHID

### Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr at deulu Carwyn Huws, a fu farw mewn gwrthdrawiad yn ddiweddar yng Nghapel Curig. Does dim geiriau sy'n gallu mynegi y tristwch o golli hogyn ifanc, annwyl fel Carwyn. Cofiwn am Carwyn fel disgybl llawen yn Ysgol Llanllechid, ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd fel teulu yn eich hiraeth a'ch colled enfawr.

### Cofion a Chydymdeimlo
Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Glena Bevan yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr yn ddiweddar. Cofion cynnes atoch oddi wrth bawb yn yr ysgol.

### Gwellhad Buan
Rydym yn ffodus fod Mr Stephen Jones yn ôl yn ei waith yn yr ysgol, wedi cyfnod yn yr ysbyty. Croeso nôl Mr Jones!

### Ffair Haf Ysgol Llanllechid
Croeso cynnes i Ffair Haf Ysgol Llanllechid sydd yn cael ei chynnal ar Ddydd Iau, Mehefin 19. Agorir y Ffair am hanner awr wedi pump. Diolch i Mrs Ceri Evans, Cadeirydd, a phawb sydd ar y pwyllgor am eu gwaith di-flino yn trefnu. Gwerthfawrogwn eich cymorth a diolchwn ymlaen llaw am unrhyw roddion; gwobrau raffl, cacennau ac ati. Diolch o galon i chi. Edrychwn ymlaen at Ffair Haf lwyddiannus eto eleni.

### Datblygiadau i Adeilad Ysgol Llanllechid
Y mae amser i bopeth dan y Nef, ac er mai hir yw pob ymaros, mae dau ddosbarth newydd sbon yn cael eu hadeiladu yma ar hyn o bryd, fel rhan o estyniad newydd i'r ysgol. Rydym yn hynod ddiolchgar, gan fod gofod wedi bod yn eithaf prin yma ar hyd y blynyddoedd. Edrychwn ymlaen hefyd at weld yr iard wedi cael ei tharmacio! Datblygiadau gwych!



### Glanllyn
Gyda`r tywydd ar ei orau, a glesni Llyn Tegid a`r awyr yn un, aeth dosbarth Blwyddyn 5 i Wersyll yr Urdd, Glanllyn. Diolch yn fawr i`r tri aelod o staff am eu gwaith yn goruchwylio: Mr Stephen Jones, Mrs Nerys Tegid a Miss Lorraine. Cafwyd amser i`w gofio, a gwir dwued i`r daith breswyl hon fod yn llwyddiant ysgubol!

### Menter Efa Mai
Ar hyn o bryd, mae Efa Mai yn mynd ati i godi arian at yr Uned Gancr leol yn Ysbyty Gwynedd. Os hoffech gyfrannu dyma'r dudalen: Just Giving - **http://www.justgiving.com/page/efa-mai.** Da iawn ti Efa Mai, a chofiwn am dy garedigrwydd, a charedigrwydd eraill o'n disgyblion, tuag at berchnogion newydd Siop Rachub. Da yw gweld ein plantos yn meddwl am eraill, ac yn dangos cymwynasgarwch.

### Gornest Lyfrau
Llawer iawn o ddiolch i Miss Gwenlli Haf am ei gwaith yn trwytho'r disgyblion yn wythnosol mewn llyfrau Cymraeg, yn y Clwb Darllen ar ôl Ysgol. Siaradodd pob un o'r grwp yn huawdl, a llongyfarchiadau i'r unigolion am fod mor barod i gymryd rhan! Gwerth chweil yn wir!

### Gwyl Chwaraeon yr Urdd
Llongyfarchiadau arbennig i'n plantos hynaf ar gyrraedd Gwyl Genedlaethol Chwaraeon yr Urdd yn Aberystwyth. Camp a hanner oedd dod i'r brig drwy Wynedd, nid mewn un, na dwy, ond tair cystadleuaeth! Llongyfarchiadau ar eich perfformiadau ac ar chwarae rygbi, rygbi tag a pheldroed i safon mor uchel. Bu'n brofiad anhygoel cael chwarae yn erbyn ysgolion o Gymru benbaldr, ac roedd ymroddiad a sgiliau'r disgyblion yn wych!

Llawer o ddiolch i chi rieni am eich cymorth a'ch cefnogaeth gyda'r cystadlaethau hyn. Diolch arbennig i Jenna Allsup am ei gwaith hyfforddi gyda'r pel droed ac i Stephen Roberts, a James Roberts am eu cymorth parod. Diolch i'r holl rieni a fu mor barod i'n cynorthwyo. Rydym yn hynod falch o bob un ohonoch blantos, am ddod â'r fath glod i'n hysgol! Penigamp! Daliwch ati yn wir!

### Yr Ysgwrn a Thryweryn
Ar ddiwrnod heulog ym mis Mai, cafwyd diwrnod bendigedig yn ymweld â'r Ysgwrn, a chafwyd gweithdy difyr yno gan Mrs Alwen Derbyshire. Llond trol o ddiolch. Diolch hefyd i Mr Derfel Owens, ein gyrrwr bws, am ei gwmni difyr, ac am rannu rhai ffeithiau diddorol am Gapel Celyn hefo'n disgyblion.

### Diolch
Mae Mrs Iona Robertson wedi rhoi gorau iddi fel Clerc ein Llywodraethwyr, ar ôl bod yn ymwneud â'r rôl honno am flynyddoedd, ac rydym yn gweld ei cholli! Bu Iona yn gweithio'n ddiwyd a threfnus, ac nid gormodedd dweud fod safon ei gwaith yn rhagorol pob amser. Diolch o waelod calon am yr holl gefnogaeth a'r gwaith caled Iona ar ran y Llywodraethwyr, a phawb yn yr ysgol.

### Llechi
Astudio eu cynefin fu dosbarthiadau Mr Tomos Owen a Mr Stephen Jones, a dysgu am bwysigrwydd y 'llechan'a'i thaith o Chwarel y Penrhyn i lefydd o amgylch y byd.



### Teithiau
Bu sawl taith yn ddiweddar; yn eu mysg taith i Fferm y Foel i ddosbarth Mrs Bethan Jones, taith i`r Sw Fôr i ddosbarth Mrs Lois Nottingham a thaith y pontydd i ddosbarthiadau Mrs Wilson a Miss Gwnelli Haf. Braf yw cael manteisio ar y tywydd braf a chael mynd ar fws neu ar droed i ehangu ein gorwelion.

### William Griffith, Hen Barc
Bu dosbarth Mr Owen a Mr Stephen Jones yn crwydro'r ardal, gan drafod eu milltir sgwar. Cafwyd cylfe i fynd i Hen Barc i edrych ar gartref William Owen, y bardd a ysgrifenodd y gerdd enwog: Defaid William Morgan. Mae ein plantos wrth eu boddau yn canu'r holl benillion, ac yn ei morio hi go iawn wrth ganu'r geiriau: "*a'r hyn sy'n poeni'r ardal hon yw defaid William Morgan!*" Diolch i Mrs Marian Jones am ei llyfr: Ardal Rachub – Tair Taith Fer.



### Samba!
Wel! Roedd hi'n werth i chi gerdded heibio'r neuadd i glywed y rhythmau a'r drymiau yn cael eu chwarae mewn modd mor angerddol! Does dim byd fel ychydig o Samba!! Da iawn chi dosbarthiadau Miss Evans a Mrs Tegid am fod mor greadigol!

### Pontio Cynradd Uwchradd
Diolch i Bethan Durrell am ddod draw i siarad hefo'n disgyblion hynaf sy'n trosglwyddo i Ysgol Dyffryn Ogwen ym mis Medi. Cafwyd sesiwn ddifyr, oedd yn lleddfu unrhyw bryderon, ac atebwyd y myrdd cwestiynau! Diolch o galon!

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**CARMEL LLANLLECHID**

**Cydymdeimlo**

Mi wnaethom ni golli un o'n haelodau yn ystod y mis yma sef Mr Gareth Jones, 6 Tan y Garth. Cafodd Gareth ei fagu yn un o blant Carmel ac roedd o'n ffyddlon yn yr Ysgol Sul pan oedd o'n hogyn. Mi wnaeth o anfon ei blant ei hun wedyn, ac mi fyddai ei wyrion a'i wyresau yn dod ar foreau Sul i gymryd rhan yn y gweithgareddau hefyd. Rydan ni'n cydymdeimlo hefo'i wraig, Barbara; a'i blant, Derfel, Karen, a Lisa. Mi gafodd Gareth salwch cas iawn ac mi fuodd o'n glaf yn ei wely am lawer o fisoedd. Er hynny, mi gafodd ei ofalu amdano gyda chariad a thynerwch ar ei aelwyd ei hun ar ddiwedd ei oes. Mi rydan ni'n cydymdeimlo hefyd hefo'i frodyr, David, Trevor, ac Alwyn a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Mae colled fawr ar ôl Gareth. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Carmel, a'r gladdedigaeth ym mynwent Coetmor.

**Gwasanaeth y Plant a'r Bobl Ifanc**

Ar Sul olaf y mis, mi gawsom ni wasanaeth bendithiol iawn yng ngofal ein hieuenctid ni. Cerys Davies a oedd yn gofalu am y rhannau arweiniol ac mi gymerodd hi amser i ffwrdd oddi wrth ei hastudiaethau yn y Brifysgol ym Mangor i ddod atom ni i'r oedfa. Wedyn, mi gawsom ni ddarlleniadau, unawdau lleisiol ac ar y piano, yn ogystal â pharti canu. Da iawn y chi i gyd, genod! Mi ganodd y plant lleiaf yn dlws iawn hefyd ac mi ganodd Beti yn hyfryd ar ei phen ei hun. Mi ddarllenodd Elsi un o'r Salmau yn ogystal â darn o farddoniaeth. Diolch i'r rhai ifanc i gyd am eu gwaith da. Mi gawsom ni gwpanaid a phethau melys yn yr ysgoldy ar y diwedd.



Ffion, Charmaine, Elan, Cadi, a Lloer.



Y plant lleiaf yn canu "Iesu Tirion"

**Diolch**

Mae Sandra Howell, Cae Rhosydd yn diolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ystod mis Mai.

**Llongyfarchiadau**

Siân Esmor o Rachub ydi bardd cadeiriol Eisteddfod Môn, Bro Seiriol 2025.
Eleni roedd yr eisteddfod yn cael ei chynnal ym Miwmares, ac enillodd Siân y gadair am gasgliad o gerddi ar y testun 'Dychwelyd'. Y beirniaid oedd Cen Williams a Manon Awst, ac roedd 18 wedi cystadlu yn yr hyn a alwon nhw yn "gystadleuaeth wirioneddol dda a gafaelgar."

Dyma'r tro cyntaf i Siân gystadlu am gadair eisteddfodol, ac roedd ennill yn dipyn o syndod iddi gan mai rhyddiaith y mae hi wedi bod yn ei ysgrifennu yn y gorffennol.

"Anfon y darnau i'r gystadleuaeth er mwyn cael beirniadaeth wnes i," meddai Siân, "felly roedd cael yr alwad i ddweud 'mod i wedi ennill yn dipyn o syrpreis – ond yn beth braf ofnadwy. Ac mi ges i gymaint o groeso yn yr eisteddfod; roedd o'n brofiad arbennig iawn."

Mae Siân yn aelod o grŵp ysgrifennu Diosg ym Methesda ers ychydig dros flwyddyn, ac dweud na fasai hi wedi mentro ysgrifennu'r cerddi oni bai am y grŵp.

"Diosg roddodd yr hwb i mi ail-afael mewn sgwennu creadigol," meddai Siân. "Yn un o sesiynau Diosg y dechreuais i sgwennu'r gerdd gynta i ddod yn rhan o'r casgliad yma hefyd. Mae'r gefnogaeth dw i wedi'i chael oddi mewn i'r grŵp wedi bod yn arbennig."

[Os hoffech chi ymuno â Diosg, cysylltwch â Chris Roberts, GwyrddNi/Partneriaeth Ogwen ar chris@ogwen.org]




Llun Phil Hen

## Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau 5:00y.p.
Mehefin 22: Parchg. Nerys Griffiths.
Mehefin 29: Parchg. Sara Roberts.
Gorffennaf 6: Parchg. John Pritchard. (cymun)
Gorffennaf 13: Parchg Alan Spencer.
Gorffennaf 20: Parchg. Olaf Davies.

Nos Wener – Clwb Dwylo Prysur
6:30y.h. Ysgol Sul 10:30 y.b.
Croeso cynnes i bawb.

**Er cof yng ngolau'r lloer**

Yn 2018 fe gwblhaodd Lleucu Haf a' i mham Nia Elis-Williams Moonwalk Llundain sef taith gerdded 26.2 milltir a hynny yng ngolau'r lloer. Ymgymerodd y ddwy â'r her wedi i Nia gwblhau triniaeth am gancr y fron y tro cyntaf.

Yn drist iawn collodd Nia y frwydr a bu farw ddechrau mis Medi llynedd. Roedd yn ddymuniad ganddi y byddai Lleucu yn gwneud yr her unwaith eto a chodi prês i elusen cancr y fron. Elusen ydyw sy'n codi arian er mwyn rhoi pob math o gefnogaeth i ferched a dynion sydd wedi cael y diagnosis – o help gyda triniaeth i gwnsela a gofal mewn hosbis.

Felly ar Fai 17eg eleni yng nghwmni ei ffrindiau Clare Wyn, Carolie Jones, Sioned Roberts fe gwblhaodd Lleucu y Moonwalk unwaith eto dan yr enw Tîm Nia.

Llongyfarchiadau i'r bedair ohonoch am wireddu dymuniad Nia, buasai mor falch ohonch fel y mae dad, Gruff yn siwr o fod hefyd.



## Adroddiad Cyngor Cymuned Llanllechid


Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Cyngor Cymuned ar Nos Iau 8fed o Fai. Etholwyd y Cadeirydd am y flwyddyn 2025/2026, Y Cyng Rhydian Williams a'r Is Gadeirydd Y Cyng Robin WIlliams.
Hoffem ddiolch i'r Cyn Gadeirydd Y Cyng. Lowri Evans am ei holl gwaith yn ystod 2024/25. Hefyd etholwyd yr isod;
Is Bwyllgor Mynydd – Y Cyng Wyn Bowen-Harris, Y Cyng Robin Williams, Y Cyng Dafydd Jones
Is Bwyllgor Llwybrau – Y Cyng Dafydd Keith Jones, Y Cyng Kevin Williams, Y Cyng Lowri Evans
Is-Bwyllgor Cyllid – Y Cyng Rhydian Williams, Y Cyng Geraint Hughes, Y Cyng Robin Williams
Is-Bwyllgor Cae Chwarare Talybont – Y Cyng Wyn Bowen-Harris, Y Cyng Evan Jones, Y Cyng Alun Thomas, Y Cyng Rhydian

# YSGOL BODFEURIG

### Epig
Roeddem ni fel ysgol yn falch iawn o weld Ben ar y teledu yn ddiweddar. Roedd yn serenu ar raglen S4C – Epig. Mae Ben yn feiciwr o fri ac yn cystadlu yn rheolaidd mewn cystadlaethau beicio mynydd ond y tro yma son oedd o am feicio BMX. Cafodd siwrne lawr i Gaerdydd i ffilmio'r rhaglen, profiad bythgofiadwy iddo. Da iawn ti Ben a cofiwch wylio'r rhaglen ar iPlayer os gewch chi gyfle!



### Celf yr Urdd
Llongyfarchiadau i pawb o ddosbarth Ogwen am lwyddo i enill gwobr yn nghystalaethau rhanbarth Celf Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd ail a trydydd fel dosbarth am argraffu yn ogystal a gwobrau mewn nifer o gystadlaethau unigol e.e. ffotograffiaeth, arlunio a gwaith 3D. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu a llongyfarchiadau enfawr i Amabel ddaeth yn 3ydd trwy Gymru gyda'i ffotograffiaeth lliw – mi fydd werth ei weld yn Eisteddfod Dur a Mor!



### Ymweliad Caerdydd
Mis yr ymweliadau oedd hi mis Mai gyda blwyddyn 5 a 6 yn mynd ar daith yr holl ffordd i Gaerdydd! Cafwydd amser gwych llawn profiadau newydd gan ddechrau gydag ymweliad a'r Big Pit cyn mynd ymlaen i Wersyll yr Urdd Caerdydd ble roeddem yn aros. Y diwrnod canlynol cawsom fynd i'r Senedd gan gyfarfod a Sian Gwenllian a'n cynghorydd lleol Beca Roberts – diolch i'r ddwy am y croeso cynnes. Yn dilyn hyn cafwyd fynd i sglefrio ia ac ar daith o gwmpas y bae mewn cwch! I orffen yr ymwelaid cawsom fynd i Stadiwm y Principality a chael rhoi ein hunain yn esgidiau chwaraewyr Cymru. Roedd yr ymweliad yn un bythgofiadwy.






### Plas Menai
Yn dilyn ymweliad bl 5 a 6 i Gaerdydd tro blwyddyn 3 a 4 oedd hi i fynd i Plas Menai am noson. Cafwyd dau ddiwrnod arbennig yn profi llawer o weithgareddau gwahanol. Ar y diwrnod cyntaf cafodd pawb fynd ar gwch gyflym i chwilio am grancod, hwylio mewn kayaks, dringo wal a trio'r rhaffau isel cyn cymryd rhan mewn gweithgareddau datrys problemau, mynd am dro a cael sesiwn meddwlgarwch. Roedd diwrnod dau yr un mor brysur gyda bore o badl fyrddio cyn mynd i'r goedwig i adeiladu den a tostio malws melys ar y tan. Diolch o galon i holl staff Plas Menai am y gofal a'r hwyl gawsom!



## Mynydd Llandygai

Dyma Kaeti Breward, 10 Llwybr Main a Mark Hunter o Lerpwl – ar ôl priodi yn Plas Llwynegryn, Yr Wyddgrug ar Fai y 3ydd efo'r ddau gi bach Frankie a Flori yn chwarae rhan bwysig iawn! Mae Kaeti a Mark wedi ymgartrefu yng Nghaer ar hyn o bryd ond yn gobeithio symyd yn nôl dros Clawdd Offa yn fuan!



**Pencampwraig Ewropeaidd**
Llongyfarchiadau i Colette Price o Chwarel Goch Uchaf am ddod yn Bencampwraig Aquathlon Ewrop yn ei hoedran. Bu i Colette, sy'n cynrychioli tîm Prydain Fawr, ennill ras Aquathlon (nofio 1 km a rhedeg 5 km) yn Pamplona, Spaen yn ddiweddar.

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn adnabod Colette fel aelod gweithgar yn ein cymuned er enghraifft yn coginio ar gyfer Caffi Mynydd, ar bwyllgor y Neuadd Goffa, yn gyfarwyddwr Ynni Ogwen, ac yn gymydog cymwynasgar. Mae Colette yn ddiolchgar am y budd o ddefnyddio cyfleusterau'r Pwll Nofio yn Fangor drwy gynllun Cerdyn Rhagoriaeth Byw'n Iach. Mae hefyd yn rasio Duathlon (Rhedeg, Beicio, Rhedeg) a Triathlon (Nofio, Beicio, Rhedeg), ac yn aelod o clwb triathlon gweithgar y GOGs.

Pob hwyl ar y rasio yr haf yma Colette.



## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Babis newydd**

Llongyfarchiadau i Becky, 28 Cae Gwigin, ar enedigaeth ei hail fab ar y 12ed o Fai. Gorfu i Becky dderbyn triniaeth ar ôl geni'r bychan ac, oherwydd iddo ddod i'r byd yn gynnar, bu rhaid i'w fam ac yntau gael gofal arbennig yn Ysbyty Gwynedd. Mae Nico mor falch o weld ei fam a'i frawd bach adref o'r diwedd.

Llongyfarchiadau hefyd, i Steph a Chunk, 34 Cae Gwigin, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Ar Ebrill 23ain, ganwyd merch fach i'w mab hynaf, Billy a'i gymar, Gemma. Enw'r fechan yw Nel ac ar hyn o bryd mae'r teulu bach yn aros yng Nghae Gwigin. Rydw i'n siwr bod Iona a Keith yn hapus iawn gyda'u gor-wyres newydd yn byw drws nesaf iddynt. Mae rhai ohonom yn cofio mam Iona, Anne Wyn Jones, hen-hen nain i Nel, yn byw ym Mro Emrys. Gobeithio cawn lun o'r pump cenhedlaeth cyn bo hir.

**Profedigaethau llym**

Y mis hwn cofnodwn gyda thristwch farwolaeth ffrind a chymdoges arall o'r pentref.

Ar y diwrnod olaf o fis Ebrill, yn dawel yn ei chartref 68 Bro Emrys, bu farw Thelma Williams. Nid oedd yn dda ei hiechyd erstalwm ac yn ddiweddar bu'n gaeth i'r tŷ. Bu Ron ei gŵr yn angor iddi drwy bob gofid ac ar ddiwedd ei hoes a derbyniodd ofal tyner ganddo ef a'u hwyres Lorna. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu galar, a ffrindiau agos Thelma oedd mor ffyddlon iddi.

Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar 5ed o Fehefin.

Mae Raymond Wright, 46 Bro Emrys, a Liz Humphries, 6 Lôn Ddŵr, wedi colli chwaer-yng –nghyfraith oedd yn annwyl iawn ganddynt. Bu farw Valerie gwraig eu brawd Adrian, ar ôl cystudd maith a ddioddefodd yn ddewr. Buont yn byw ym Mro Emrys pan oedd Val yn cadw Tŷ Uchaf efo'i chwaer Josie. Maent yn adnabyddus i lawer ohonom fel perchnogion hynaws siop anrhegion a chardiau cyfarch 'Paraphernalia' yn Stryd y Deon, Bangor. Byddai'n bleser mynd i fanno bob amser.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu i gyd yn eu colled drist.

Estynnwn gydymdeimlad y gymuned gyfan at Christine, 'See', Dolheyg, yn ei cholled enfawr.

**Dymuniadau da**

Anfonwn ddymuniadau gorau at Rhian, ein Postmones ffyddlon, sydd wedi gorfod gweithio o'i chartref ers misoedd bellach. Mae hi'n dal i ddisgwyl am glun newydd, ac mewn poen mawr, ond heb gael ei galw hyd yn hyn. Mae hi'n cofio at drigolion Talybont ac yn dweud bod hi'n colli ni i gyd.

Cafodd aelodau Capel Bethlehem fraw wrth glywed bod Ysgrifennydd a Chonglfaen yr Eglwys, Neville Hughes, wedi gorfod aros yn yr ysbyty. Mae Meddygfa yn le dieithr i Nev, heb sôn am Ysbyty! Beth bynnag, gyda chymorth y ffysiotherapyddion, a'i ddygnwch ef ei hun, mae o adref erbyn hyn ac yn dod yn ei flaen yn arbennig o dda o dan lygad barcud Angharad.

Mae pawb ym Methlehem, a'th ffrindiau i gyd yn Nhalybont, yn dymuno adferiad iechyd llwyr a buan iti, Nev, ond pwyll bia' hi, cofia.

Mae Keith, 13 Dolhelyg, yn ôl yn Ysbyty Glan Clwyd, ac wedi derbyn rhagor o driniaeth ar ei goes. Brysia wella, Keith, mae'n hwyr glas arnat yn cael dod adref.

Mae Sandra, gwraig Keith, wedi bod yn sâl yr wythnos yma hefyd. Mae'n debyg iddi fwyta rhywbeth oedd wedi'i heintio. Mae gofyn i rywun fod yn arbennig o ofalus efo bwyd yn ystod y tywydd poeth.

Brysia dithau wella, Sandra.

Mae Liz, 6 Lôn Ddŵr, wedi mynd i Lerpwl i gael triniaeth ar ei chalon. Mae hi'n disgwyl ers amser am yr alwad ac, o'r diwedd, clywodd fod gwely iddi yn Ysbyty Broadgreen ar gyfer Mai 26ain.

Pob lwc iti, Liz. Byddwn i gyd yn meddwl amdanat ac yn gobeithio cei ddod adra'n fuan. Ond bydd rhaid iti wrando ar y meddygon, a gwneud cyn lleiad â phosibl o gwmpas y tŷ a'r ardd.

**Dathliadau**

Llongyfarchiadau i Ben Parry, 17 Dolhelyg, sydd newydd basio ei brawf yrru. Dymunwn flynyddoedd maith o yrru'n ddiogel iti, Ben. Gobeithio y byddi ymysg y gyrrwyr callaf.

Mae Sheila a Vernon Roberts, Capel Gilfach, wedi dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Anfonwn longyfarchiadau iddynt, a'n dymuniadau diffuant am bob bendith a iechyd gwell i'r dyfodol.

Waeth inni heb na gofyn, ble mae hanner can mlynedd wedi mynd. Mae amser yn hedfan mor gyflym.

**Cystadlu brwd**

Llongyfarchiadau i Gwion a Wil, Glan Môr Isa; y ddau yn aelodau o Glwb gweithgar a dawnus Ffermwyr Ifainc Dyffryn Ogwen. Cipiodd y Clwb y safle uchaf un yn Rali'r Sir ar Fai 24ain. Cynhaliwyd Rali Eryri eleni ar dir Fferm Berthaur, Llangwnnadl, Llŷn; ardal sy'n gyfarwydd iawn i deulu Glan Môr Isaf. Diwrnod i'w gofio'n wir, hogia'. Pob lwc i bawb fydd yn cyrychioli'r C. FF.I. Dyffryn Ogwen yn Sioe Llanelwedd y mis nesaf.

**Cystadleuaeth ryngwladol**

Ar ddydd Sadwrn, Mai 24ain, bu Avaya Gross, 9 oed, o 33 Bro Emrys, yn cynrychioli ei gwlad ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Prydain yn Stoke-on- Trent. Er mawr glod iddynt, fe lwyddodd carfan Cymru i ennill y Fedal Efydd.

Mae Avaya yn aelod brwd o Glwb Gymnasteg Bangor sy'n hyfforddi yn Llandygai. Rydan ni yn Nhalybont yn falch iawn o'th lwyddiant, Avaya. Rwyt yn gweithio'n galed ac yn gwneud yn wych.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Mehefin 22 : Parchg. Gwenda Richards.
Mehefin 29 : Parchg. Cledwyn Williams.
Gorffennaf 6 : Parchg. John Pritchard.
Gorffennaf 13 : Parchg. Olaf Davies.
Gorffennaf 20 : Parchg. Dafydd Job.
Gorffennaf 27 : Oedfa i'w threfnu.

AWST – Dim oedfaon.
Croeso cynnes i bawb.

**Diolch**

Mae Neville yn diolch yn fawr i bawb am eu cyfarchion a'u dymuniadau da yn ystod ei waeledd yn ddiweddar.

**Parti Penblwydd**

Cafwyd te parti yng nghyfarfod Bwrlwm Bethlehem ar 29 Mai. Yr achlysur oedd penblwydd Enfys Jones yn 95 mlwydd oed ar y diwrnod canlynol.


CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653





Mark Davies
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru
MCEA



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

Ystyried dysgu rhywbeth newydd?

- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

Cysylltwch!
cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875
https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

# YSGOL RHIWLAS

### Hwyl fawr a chroeso nôl
Hoffai staff a disgyblon yr ysgol ddymuno hwyl fawr am y tro i Mrs Medway sydd bellach ar gyfnod mamolaeth - pob hwyl gyda'r magu! Yn ystod absenoldeb Mrs Medway mae wyneb cyfarwydd wedi dychwelyd i fod yng ngofal disgyblion Cyfnod Allweddol 1 – croeso nôl Miss Williams! Mae pawb yn falch o'ch gweld yn ôl yn yr ysgol.

### Kick-It
Mae'r disgyblion wedi bod yn mwynhau sesiynau chwaraeon 'Kick It' ar nosweithiau Llun. Dyma gyfle i drio pob math o chwaraeon megis pêl-droed, criced, a 'dodge ball'. Bydd y sesiynau yn parhau yn ystod mis Mehefin.

### Trip i Ysbyty'r Chwarel
Ar hyn o bryd mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn dysgu am y chwareli llechi sydd i'w gweld o'n hamgylch. Dyma gyfle gwych i fynd allan am drip yn y bws mini!

Mwynhaodd y disgyblion ymweliad ag Ysbyty Chwarel Dinorwig – wyddoch chi mai Ysbyty Chwarel Dinorwig oedd un o'r rhai cyntaf yn y wlad i ddefnyddio Pelydr X, a hynny yn 1898? Roedden nhw hefyd yn defnyddio peiriant y *Lister spray*. Mi fydden nhw'n berwi asid carbolig yn y *lister* a byddai›r chwistrelliad yn dod allan fel niwl dros y bwrdd triniaeth er mwyn stopio gwenwyn rhag mynd i›r gwaed. ‹Doedd prin ddim achosion o septisemia yn yr ysbyty, i feddwl nad oedd triniaeth antibiotig ar gael yr adeg honno. Y peth pwysig oedd cadw popeth yn lân – roedden nhw'n deall o'r cychwyn fod germau yn gallu cael eu pasio o un peth i'r llall.

Dysgodd y disgyblion hefyd un doctor arbennig iawn a weithiodd yn Ysbyty Chwarel Dinorwig - Dr Mills Roberts. Yn ogystal â bod yn feddyg roedd hefyd yn chwarae pêl-droed i Preston North End, un o'r timau a sefydlodd y Gynghrair Pêl-droed. Roedd yn aelod o'r tîm cyntaf i guro'r gynghrair ac ennill cwpan yr FA tua 1890.



### Ymweliad â set 'Rownd a Rownd'
Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 brofiad arbennig yn Stiwdio Aria (Ynys Môn) yn ddiweddar – sef cyfle i ymweld â set y rhaglen deledu boblogaidd 'Rownd a Rownd'. Roedd pawb wrth eu boddau yn busnesu yn oergell teulu'r Kay's, yn eistedd ar soffa Rhys a Trystan, ac yn esgus coginio yng nghegin Sophie! Mae'r ymweliad yn sicr wedi ysbrydoli sawl disgybl i feddwl troi eu llaw at yrfa actio, neu fod yn gynlluniwr set deledu. Diolch yn fawr iawn i griw Rondo am y croeso cynnes.

### Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu'n ddiweddar yn Eisteddfod yr Urdd (Sir Eryri). Braf iawn oedd gweld pawb yn morio canu ar lwyfan mawr Pontio – profiad arbennig i bob un. Diolch arbennig i'r athrawon am eu gwaith hyfforddi. Llongyfarchiadau hefyd i bawb am eu llwyddiant yng nghystadlaethau celf a chrefft yr Urdd – braf yw ymfalchïo yn llwyddiant y disgyblion. Hefyd, yn arbennig, llongyfarchiadau mawr i Kaitlin am ennill y wobr gyntaf gyda'i gwaith tecstilau creadigol – mae pawb yn falch iawn o dy lwyddiant, Kaitlin.

### Gweithdy cerddoriaeth
Braf oedd croesawu DJ Endaf at Gyfnod Allweddol 2 i gyfansoddi cerddoriaeth ar yr ap *Garageband*. Cafodd pawb hwyl yn arbrofi gyda synau gwahanol offerynnau, cyn cael tro ar gyfansoddi eu hunain.

### Rhodd ariannol
Hoffai'r ysgol ddiolch i Gronfa Ken Harris am rodd ariannol. Bydd yr arian yn cael ei wario ar brosiectau yn ymwneud â'r thema 'ein cynefin', ac mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn eiddgar i fynd ar deithiau cerdded i ddysgu mwy am eu bro.

# "Cymunedau'n cael eu gadael ar ôl" – Siân Gwenllian yn mynnu atebion clir i Ddyffryn Ogwen

Mae Siân Gwenllian AS dros Arfon wedi galw'n glir am weithredu brys i fynd i'r afael â'r dirywiad yn y gwasanaethau bysiau yn Nyffryn Ogwen – gan amlygu y sefyllfa fregus y mae cymunedau fel Tregarth, Mynydd Llandygai, Rachub a Gerlan yn wynebu.

Yn ystod cyfres o gwestiynau yn y Senedd, nododd Siân Gwenllian:

"Mae yna broblemau sylweddol wedi codi o ran trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Tregarth a Mynydd Llandygai yn Nyffryn Ogwen yn sgil toriadau diweddar i wasanaethau bysiau. Dyma chi rai o'r prif faterion: mae'r gwasanaeth bws i Gerlan wedi dod i ben yn llwyr; mae'r gwasanaeth bws drwy Llys y Gwynt wedi dod i ben; does yna ddim gwasanaethau bws ar y Sul i Rachub na Thregarth na Mynydd Llandygai, er bod Tregarth, er enghraifft, yn gymuned o dros 1,000 o etholwyr."

Fe wnaeth hefyd herio'r Llywodraeth am roi gormod o bwyslais ar deithiau pellter hir ar draul anghenion lleol:

"Roeddech chi'n sôn am y gwasanaeth TrawsCymru, ond er cystal ydy hwnnw ar un lefel, dydy o ddim yn cymryd i ystyriaeth teithiau pob dydd y mae pobl leol yn dibynnu arnyn nhw. Yn anffodus, mae pobl yn teimlo bod y pwyslais ar deithiau pellter hir wedi dod ar draul gwasanaethau lleol."



Galwodd Siân ar y Llywodraeth i gymryd camau pendant i gynnwys y gymuned leol wrth geisio atebion:

"Mae yna esiamplau tebyg i beth dwi newydd nodi rŵan i'w gweld ar draws y Gymru wledig. Yn achos dyffryn Ogwen, a wnewch chi weithio efo'r gymuned leol i ffeindio datrysiadau i'r problemau yma yn y tymor byr, gan dynnu'r rhanddeiliaid at ei gilydd ac eistedd rownd y bwrdd i weld beth sydd yn bosib?"

Er bod y Gweinidog Trafnidiaeth, Ken Skates, yn cydnabod rhai o'r problemau, gan ddweud ei fod yn derbyn bod y system bresennol yn caniatáu i lwybrau gael eu dileu "ar fyr rybudd", a'i fod yn nodi rhai buddsoddiadau seilwaith, ni roddodd ymrwymiad clir i weithredu ar unwaith yn Nyffryn Ogwen.

# Partneriaeth Ogwen





**Dathliad Murlun Tregarth**
Ar Fai'r 1af, daeth rhai o drigolion a disgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Tregarth i Ganolfan Tregarth ar gyfer dathliad y murlun newydd gan yr artist Darren Evans. Mae'r murlun, sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU fel rhan o brosiect Llewyrch o'r Llechi, yn dathlu hanes cyfoethog a threftadaeth lechi'r ardal, gan gynnwys trên stêm trawiadol a draig goch balch — symbolau pwerus o stori ac ysbryd hen orsaf Tregarth.

Roedd y prosiect hwn yn rhywbeth cyffrous iawn i'r pentref ac mae wedi newid edrychiad y Ganolfan yn sylweddol. Pan oedd Darren wrth ei waith roedd pobl yn stopio i siarad gydag ef drwy'r amser - am wythnosau. Roedd pawb wedi rhyfeddu at ei lun manwl o'r hen orsaf. I ddechrau roedd Darren eisiau rhoi ychydig o liw yn y llun, ond newidiodd ei feddwl ar ôl cael sgyrsiau difyr gyda phobl y pentref. Mae'n bosib gweld Darren wrthi'n gweithio ar y murlun mewn clip fideo [FB Trigolion Tregarth].

Cafodd y disgyblion dipyn o hanes y trenau gan Peter Roberts, sydd yn cofio gweld y trenau dechrau'r 1950au, a Dr Dafydd Roberts yn sôn am gludo'r llechi i Fangor. Roedd lluniau o'r orsaf a trenau yn cael eu taflunio ar y wal mewnol a clip fideo o'r murlun yn cael ei greu.

Diolch i Dominig Kergevant am lywio'r gwethgareddau.

Roedd hwn yn ddigwyddiad cyffrous hefyd i Bwyllgor Rheoli Canolfan Tregarth. Aethom ni ati i greu mygiau - "bone china" go iawn - i ddathlu'r murlun. Roedd y mygiau'n barod ar gyfer y diwrnod dathlu - dipyn o her i ddweud y gwir. Mae 'na ychydig o fygiau ar ôl. Croeso i unrhyw un gysylltu gyda'r Pwyllgor: canolfantregarth@gmail.com [lluniau: FB Trigolion Tregarth].




**Seddi Gwag y Cynghorau Cymunedol**
Adroddwyd fod dwy sedd wag dal ar gael ar y Cyngor Cymuned - un sedd Ward St Anns (Mynydd Llandygai) ac un sedd Ward Llandygai. Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i gael llenwi'r seddi hyn. os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth: e-bost cyngorllandygai@ogwen.org neu 01248 602131.

***Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn, Mehefin 28, os gwelwch yn dda.***

# Nyth y Gân

## Iâr Fach Yr Haf

Mae gan yr ardd ei stori,
A bywyd ydyw hi;
A'r hyn sydd yn ei lenwi
Sy'n brofiad hoff i ni.

Daw'r glöyn byw rhyfeddol
A fagwyd yn yr ardd;
O'r golwg fu, ond heddiw
Mae'n hedfan ynddi'r hardd.

Dal sylw mae'i adenydd
Yn lliwgar uwch ei ben
Yn cau ac agor yno
Yn ysgafn, braf fel llen.

Am gyfnod byr y gwelir
Golygfa deg fel hon
Sy'n creu i ni ysgafnder
A deimlwn dan ein bron.



## Y Mynydd

**(atgof)**

Hyd erwau ucheldiroedd y mynydd
Mae unig weundiroedd,
Ac yma yn ei gymoedd
Yn yr haf mor hardd yr oedd.

## Murddun

Digalon ydyw gweled adeilad
Heb deulu mewn colled;
Wedi cael bywyd caled,
Ar lawr mae'i furiau ar led.

## Dyfodiad Blodau'r Haf

Y ddawns oedd hynod fywiog
A rhyw hapusrwydd gaed
O weld y bywyd newydd
A ddeffrodd dan ein traed.

Mae'r gerddi unwaith eto
Yn llawn o dyfiant braf;
Fe'u gwelir hwy o'n cwmpas
Drwy fisoedd teg yr haf.

Darluniau bendigedig
A geir drwy'r tymor nawr;
Gwych liwiau a ddychwelodd
I'r manion rai a'r mawr.

**Dafydd Morris**

# Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Gair o ddiolch**
Dymuna Margaret Jones o Bant Glas ddiolch yn fawr am y caredigrwydd a'r gefnogaeth a dderbyniodd ei theulu, cymdogion a ffrindiau ar ôl ei thriniaeth yn yr ysbyty ym Mangor. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr.

Hoffai Gwyn Williams 45 Ffordd Carneddi / 6 Maes y Garnedd ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y croeso adra ar ôl dros unarddeg mis yn yr ysbyty. Diolch i holl staff Ysbyty Gwynedd, Y Royal yn Lerpwl a'r Royal yn Salford eu hymroddiad. Diolch mawr i bawb sydd wedi cyfrannu at ei dudalen *Just Giving*.

**Ysbyty**
Bu sawl un yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth yn ddiweddar, da deall bod rhai gartref erbyn hyn ac yn gwella, cofion cynnes atoch i gyd.
Linda Parker, Gwêl y Nant
Thomas Jones, Brynbella
John Jones, Ffordd Bangor
Ian Hughes, Rhes Gordon Shirley Pritchard, Pant Glas
Idris Lewis, Ffordd Bangor
Sue Hopkin, Ffordd Bangor

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Arwel a Linda Hughes ar yr achlysur hapus o ddathlu eu Priodas Aur ym mis Mai. Dathlwyd y diwrnod arbennig gyda cinio mewn gwesty yng Nghaerws.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Timothy Lloyd, Stryd John a fu farw'n ddiweddar. Roedd Tim yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Robin Lloyd, Capel Currig.

Ar Ebrill 20fed yng Nghartref Plas Ogwen, lle bu'n preswylio ers peth amser bu farw Frank Thomas (Frank Taxi) ac o Llety'r Adar yn 88 oed. Priod annwyl Mrs Mair Thomas, tad caredig i Wendy a Chris, tad yng nghyfraith Ian a thaid hoffus Amy, Matt a Sara a brawd annwyl Brenda. Un o hogia Pesda oedd Frank ac wedi gadael yr ysgol bu'n gweithio i sawl cwmni cyn sefydlu cwmni ei hun. Bu ei angladd dydd Llun, Mai 12fed, gyda'r gwasanaeth yng nghapel Carmel, Llanllechid a mynwent Coetmor. Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams oedd yn gwasanaethu a darllenwyd Salm 23 gan fab yng nghyfraith Frank sef Ian gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

Ar Ebrill 25 yn frawychus o sydyn tra oedd wrth ei waith bu farw Thomas Alan Griffith (Alan Glo) yn 63 oed. Tad arbennig i Rhys a Dewi a thaid i Cadi, Siwan, Guto, Eban ac Elgan. Roedd y fab i Mrs Eirwen a'r diweddar Eifion Griffith gynt o Rhes Mostyn, ac yn frawd an wyl i Helen, sy'n byw ar Ynys Môn. Bu ei angladd fore Sadwrn, Mai 17eg yn Amlosgfa Bangor, lle daeth tyrfa fawr ynghyd. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth fawr.



**Cyngerdd Elusen Ymchwil Cancr Gogledd Orllewin**
Trefnwyd y cyngerdd gan bwyllgor Aber a Llanfairfechan a chymorth Côr Meibion y Penrhyn. Cynhaliwyd yng nghadeirlan Bangor gyda tri chôr yn cymeryd rhan. Agorwyd y cyngerdd gyda Lleisiau'r Mignedd dan arweiniad Ceren Lloyd a Ffion Llwyd Jones gyda Rhian Prew yn cyfeilio. Yr unawdydd oedd Sara Owen. Wedyn daeth Cornarfon dan arweiniad Caleb Rhys gyda Carys Owen yn cyfeilio ac yna Côr y Penrhyn dan arweiniad Owain Arwel Davies a Frances Davies yn cyfeilio. Diolchwyd iddynt gan aelodau o'r pwyllgor. Fel diweddglo canodd y corau gyda'i gilydd ac roedd y gymeradwyaeth y gynulleidfa yn dangos eu gwerthfawrogiad am noson ardderchog.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Diolch yn fawr i'r canlynol am ddod atom i'n gwasanaethu yn ystod yr wythnosau diwethaf: Y Parchedig Olaf Davies, Y Gweinidog, Y Parchedig Huw Pritchard, a'r Parchedig Eric Jones. Gwerthfawrogwn eu cyfraniadau i gyd.

**Cymorth Cristnogol**
Cynhaliwyd y Gwasanaeth Undebol blynyddol yma yn Jerusalem fore Sul, Mai 18, o dan ofal ein gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. Er mai siomedig iawn oedd y nifer a ddaeth ynghyd, cafwyd oedfa raenus dros ben, ac 'rydym yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am gymryd rhan: Nicola Hughes, Gwenda Davies, Angharad Huws, Barbara Jones, Ffion Rowlinson, Ceri Dart a Carol Dewi Jones.

Bu'r Bore Coffi a gynhaliwyd yn y Festri ddydd Sadwrn, Mai 10, yn llwyddiannus hefyd, a diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

**Y Gymdeithas**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn y Festri ddydd Iau, Mai 15. Anfonwyd dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr a buan at Neville, ein Llywydd, sy'n gwella'n dda yn dilyn cyfnod byr yn yr ysbyty.

Trafodwyd paratoadau ar gyfer y Bore Coffi a gynhelir ddydd Sadwrn, Mai 31, a'r Wibdaith flynyddol ddydd Iau Mehefin 19. Eleni, y bwriad yw treulio peth amser yn yr Ysgwrn, Trawsfynydd, cyn mynd ymlaen i'r Bermo. 'Rydym yn gobeithio cael cefnogaeth dda i'r ddau ddigwyddiad.

Bydd enwau Swyddogion a Phwyllgor 2025/26 yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf fore Iau, Mehefin 26. Ar yr un pryd, gobeithiwn drefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesaf – derbyniwyd nifer o awgrymiadau diddorol eisoes.

**Gwella**
Da deall bod John Jones (John Siop i bawb ohonom) yn gwella'n foddhaol wedi cyfnod yn yr ysbyty, pryd y derbyniodd lawdriniaeth pur ddifrifol. Dymunwn adferiad llwyr a buan i ti John. Hefyd, deallwn bod Ceinwen Hughes yn gwella'n raddol yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Yr un yw'n dymuniadau gorau i chwithau, Ceinwen.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Mehefin 22: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Mehefin 29: Y Gweinidog (10)
Gorffennaf 6: Ms Karen Owen (10)
Gorffennaf 13: Y Parchedig Robert Capon (10)
Gorffennaf 20: Y Gweinidog (10)
Gorffennaf 27: Y Parchedig Cledwyn Williams (5)

NI fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst.

## Cylch Meithrin Cefnfaes

Dyma rai o blant Cylch Meithrin Cefnfaes yn dathlu Dewin a Doti wrth gerdded ar daith noddedig.

Mae Cylch Meithrin Cefnfaes yn cynnig gofal i blant o ddwy oed hyd at bedair oed o 8 y bore hyd at 5 y prynhawn, ac yn derbyn ceisiadau newydd i blant ymuno hefo ni.

Fel lleoliad, rydym ni'n dibynnu ar gefnogaeth y pentref ac mae codi arian yn rhan fawr o allu cynnig profiadau eang i'r plant, gan ein bod yn elusen.

'Rydym hefyd yn chwilio am aelodau newydd i'n pwyllgor. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno gyda'r pwyllgor neu gofrestru eich plentyn, yna gyrrwch neges destun neu e-bost i'r cylch cefnfaes@hotmail.com / 07815085323








**Teyrnged teulu i ddyn ifanc annwyl**
Bu farw Carwyn Huws o Bethesda yn drasig, yn 20 oed, ar Fai 10fed 2025 yn dilyn damwain ffordd ger Capel Curig.

Mewn teyrnged, dywedodd ei deulu:

"Mab annwyl i Georgina a Hefin a brawd i Arlun. Roedd pawb a oedd yn ei adnabod yn ei garu, roedd Carwyn yn berson caredig, mwyaf annwyl a byddai bob amser yno i bawb.

Fel teulu, hoffem ddiolch i BAWB am eu cefnogaeth a'u geiriau caredig a gofyn am barchu ein preifatrwydd yn ystod yr amser dinistriol hwn.

Yn benodol, hoffem ddiolch i'r Tîm Achub Mynydd, y Parafeddygon, a'r timau Ambiwlans Awyr a weithiodd mor galed i'w achub.

Roedd Carwyn yn cael ei garu cymaint ac rydym wedi torri ein calonau."

Hoffem hefyd ddweud bod ein meddyliau gyda'r teithiwr oedd ar gefn beic modur a dymuno adferiad llwyr iddi.

**Diolch**
Dymunwn ar ran bawb ddiolch yn fawr iawn i swyddogion ac aelodau pwyllgor Carnifal 2025 am garnifal ardderchog ar Fai 17eg. Braf oedd gweld cymaint o bobl ar y Stryd Fawr ac yna'n ymlwybro i'r cae rygbi. Mae'r pwyllgor yn haeddu clod mawr am eu gwaith drwy'r flwyddyn. Edrychwn ymlaen at yr un nesaf a chofio cefnogi'r gweithgareddau fydd yn codi arian ac hefyd yn weithgareddau cymdeithasolyn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## Cyngor Cymuned Bethesda

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd Newydd**
Hoffem longyfarch Catrin Wagerar gael ei phenodi yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac i Einir Williams fel yr is-gadeirydd newydd.

**Basgedi Crog**
Diolch yn fawr i Balchder Bro, y Cynghorwyr Paul Rowlinson a Walter Williams a Chris a Barryo GwyrddNi am eu gwaith gwych yntrefnu'r basgedi croghardd ar y Stryd Fawr. Roedd y cyngor wedi cyfrannu tuag at y fenter gymunedol hon sy'n dod a lliw i Fethesda.

**Pwyllgor Carnifal**
Hoffem dalu diolch enfawr i bwyllgor Carnifal Bethesda am eu gwaith caled yn trefnu diwrnod i'w gofio. Am ddiwrnod bendigedig!

**Lôn Newydd**
Mae'n bleser mawr gallu dweud bod y broblem o ddwr yn llifo ar Lon Newydd wedi cael ei ddatrys o'r diwedd, wedi i Dwr Cymru fynd i wraidd y broblem ar ôl cwynion gan y Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd.

## Clwb Gorffwysfan

*Bore Coffi*
Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn fore Sadwrn, Ebrill 26ain yn Festri Capel Jerusalem gydag elw o £300; diolchodd y Cadeirydd i bawb i am eu cymorth i gynnal y bore.

*Dydd Mercher, Ebrill 30ain*
Aeth yr aelodau a chyfeillion ar eu gwibdaith gyntaf o'r tymor. Yr Wyddgrug oedd y gyrchfan gyntaf ac ymlaen wedyn i Langollen ac yn ôl adre ar hyd yr A5 ac i lawr Nant Ffrancon a hithau'n ddiwrnod bendigedig o braf a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

*Gwibdaith nesaf*
Dydd Mercher, ac nid dydd Gwener, Mehefin 25ain, cychwyn ger y gofeb, Stryd Fawr a 8:00 y bore, enwau ac arian i Joe.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.
Gofynnir am yr holl amlenni i'r eglwys erbyn diwedd Mehefin, er mwyn gweld faint sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Gwasanaethau Eglwys Crist**
Pob bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

**Diolch**
I bawb a gefnogodd ein stondinau yn y Carnifal a'r Sioe Amaethyddol – gwerthfawrogir pob cyfraniad a help yn fawr,
Enillwyr raffl diwrnod y Carnifal:
1. Ian Hughes
2. Natasha
3. Ann (Llandygai)
4. Carol (Llanelli)
5. Helen Williams
6. Owenna, Ffordd Tanrhiw
7. Tony Bates
8. Ian Hughes

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ol llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartref, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb syn dioddef mewn unrhyw fodd.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ein ficer ar 01248 361521 neu'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981.

**Dyfodol Yr Eglwys**
Mae cronfa'r Apel yn dal i fynd, er mwyn cadw'r eglwys ar agor er defnydd y gymuned. Os hoffech gyfrannu, mae cronfa Gofundme yn dal ar agor, lle mae'n bosib cyfrannu'n uniongyrchol.
Diolch o galon i bawb,

**Dyfodol Eglwys Crist Glanogwen**
Annwyl Pobl Pesda
Dwi'n ysgrifennu atoch yn y gobaith bydd nifer ohonoch yn fodlon dod ymlaen er mwyn creu Grwp Gweithredol i ddatblygu cynllun ar gyfer dyfodol Eglwys Crist, Glanogwen. Fel y gwyddoch, mae dyfodol ein eglwys yn y fantol, fel nifer o'n hen eglwysi a chapeli – ond mae Glanogwen yn arbennig. Oherwydd ei hanes a'i phwysigrwydd crefyddol, diwylliannol a llenyddol i Fethesda a Chymru, mae'n bosib i ni fynd ati i wneud ceisiadau am gyllid – OND mae angen cynllun cadarn yn gyntaf o beth rydym ni fel cymuned eisiau gweld yn cael ei ddatblygu yma.

Felly, dyma'r alwad, yr her a'r gwahoddiad i CHI i fod yn rhan o'r breuddwydio, dychmygu a'r weledigaeth. Os oes ganddoch brofiad yn y maes o ysgrifennu ceisiadau, rheoli prosiect, cyd-weithredu cymunedol ayb, rydym ni angen CHI! Os oes ganddoch sgiliau, amser, egni a brwdfrydedd dros sicrhau dyfodol yr adeilad hyfryd a phwysig yma i'r genhedlaeth nesaf, yna cysylltwch â:
Parch Sara Roberts.
sararoberts@churchinwales.org.uk
Ffôn: 07967652981


SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)


# Rali Ffermwyr Ifanc 2025

Ar ôl wythnosau o baratoi a sawl noson hwyr, cyrhaeddodd y diwrnod mawr sef Rali Ffermwyr ifanc Eryri ar y 24ain o Fai yn Fferm Berthaur, Llangwnnadl! Ond yn yr wythnosau yn arwain at y rali, roeddem nid yn unig yn paratoi at y diwrnod mawr ond yn cystadlu mewn sawl cystadleuaeth yn cynnwys barnu stoc, rygbi a ffensio ac yn hel noddwyr ar gyfer yr Erwau – Blwyddlyfr y mudiad! Hoffwn ddiolch i bawb am fod mor hael! Wedi hyn roeddwn mewn safle gwych yn mynd mewn i'r rali!

Ymlaen at ddiwrnod y rali. Braf oedd gweld y bwrlwm ar y buarth wrth i aelodau ar draws y Sir cyrraedd ac yn barod i gystadlu. Gyda nifer o gystadlaethau gwahanol o wneud pwdin 'pavlova', anifail allan o lysieuyn, gwaith coed, gwaith metel, cneifio, canu, hyrwyddo atyniad lleol, gosod blodau, reidio beic mor araf â phosib, tynnu rhaff a llawer mwy.

Thema'r rali eleni oedd 'Teithio' felly oedd yna elfen o drefniadaeth a theithio ym mhob cystadleuaeth. I'r gystadleuaeth ddawnsio aeth y rhai iau ati i ddysgu'r ddawns draddodiadol o Seland Newydd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Bill Huaki am ddod atom i gael trefn arnynt. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd roedd gan Glwb Dyffryn Ogwen grŵp canu! Ar y llwyfan roedd Sallie, Iwan, Math, Cian a Catrin yn canu Trawscrwban gan Iwcs



## Camp Fawr Chris



Ar ddydd Gwener, Mai 16eg cynhaliwyd râs arbennig iawn sef Ultra Trail Eryri. Râs ydy hon sy'n 100milltir i fyny ac i lawr mynyddoedd Eryri gan esgyn cyfanswm o 33,000 troedfedd( mae Everst yn 29,035 tr.) Roedd hyn yn golygu rhedeg dros fynyddoedd gyda llethrau serth a garw. Un a redodd y râs arbennig yma oedd Chris Williams, Bryn Caseg. Roeddwn wedi galw yn ei gartref cyn iddo gychwyn, yn digwydd mynd a cyflenwad o Lais Ogwan i Einir ei wraig. Roedd yn edrych yn ddigon cyfforddus a fasa chi byth yn meddwl ei fod ar fin ymgymeryd

a Doyle - cipiodd y grŵp yr ail safle!! Yn dilyn hyn aeth y grŵp ati i gystadlu yn y gystadleuaeth 'Adloniant Llong Fordaith' ac mi ddoth Hogia Llandegai yn ôl i'r llwyfan i gofio am Moli'r fuwch! Yn amlwg roedd hyn wedi plesio'r beirniad a enillodd y criw sgiffl a Moli'r fuwch! Pob lwc iddynt yn ei pherfformio lawr yn y Sioe Frenhinol. Mae gweddill y canlyniadau wedi rhestru isod.

Ar ôl diwrnod llawn cyffro a hwyl daeth hi'n amser i'r seremoni gowbruo. Roedd yr aelodau yn eistedd yn gwrando allan am enw ein glwb bach ni! Roedd safle'r clybiau yn cael ei chyhoeddi yn drefn eu pwyntiau... a disgwyl oedd ein aelodau. Dyma'r 'top 3' yn cael ei cyhoeddi – Rowen, Caernarfon a Dyffryn Ogwen. Am y tro cyntaf ers 1947 Clwb Dyffryn Ogwen ddaeth i'r bríg, gyda Caernarfon yn ail! Roedd yna hen ddathlu yn y ddawns nos.

Hoffwn diolch yn fawr iawn i bawb fuodd yn help i'r clwb wrth iddynt paratoi ar gyfer y rali a Llongyfarchiadau mawr iawn i holl aelodau'r clwb.








**Barnu**
Tîm barnu gwartheg – 2il
Tîm barnu moch – 1af
Tîm barnu defaid – 1af

**Cystadlaethau llwyfan**
Hyrwyddo atyniad lleol – 2il
Canu grwp – 2il
Adloniant llong fordaith – 1af

**Gwaith cartref**
Arwydd y rali – 3ydd
Erwau – 1af
Llyfr Trysorydd – 2il
Arddangosfa ffederasiwn – 4ydd
Cadi Hughes – Tecstiliau – 4ydd
Sallie Roberts – Gwaith metel – 2il a 3ydd
Catrin Jones – Arlunio – 2ail

**Cneifio Dan 28**
Eilir Davies – 2il; Beca Jackson – 4ydd
Tim cneifio – 2il

**Trin gwlan**
Beca Jackson – 2il; Beca Griffiths – 4ydd

**Tynnu rhaff;**
Merched – 2il; Dynion – 4ydd

**Cystadlaethau Eraill**
Owain Pritchard- Aradeg mae dal iar – 3ydd
Gethin Harper a Gethin Jones – Gwaith coed hyn – 2il
Arddangosfa prif gylch – 4ydd
Gem y cenedlaethau'r hyn – 2il
Ras bocs sebon – 1af

â›f fath her, ond mi roedd o "yn barod i fynd rwan!"

Gan gychwyn yn Llanberis golygai fynd i fyny ac i lawr mynyddoedd drosodd i Ddyffryn Ogwen ymlaen i Ddolwyddelan Blaenau Ffestiniog, Croesor, Nant Gwynant, Beddgelert, Rhyd Ddu, Dyffryn Nantlle ac yn ôl i Lanberis. Dringwyd dros fynyddoedd megis Glyder Fawr, Carnedd Llywelyn, Moel Siabod, Moelwyn Mawr, Cnicht, Moel Hebog, Yr Wyddfa, Mynydd Mawr, Moel Eilio, a hynny heb enwi pob un.

Hon ydy'r râs fwyaf o'i bath yng Ngwledydd Prydain ac mae'n agor y ffordd i'r râs fwyaf sef Ultra Trail Mont Blanc, ac mae'n rhaid ei chwblhau cyn y medrwch ymgeisio am le, hyd yn oed, yn honno. Mae Chris eisoes wedi cwblhau rasus 50k a 100k ddwywaith ond roedd hon yn 100milltir ( 161k) Llwyddodd Chris i wneud y râs arbennig hon mewn 39 awr 19 munud a daeth yn 50fed allan o 300 a gychwynodd y râs. Daeth ar draws nifer o' r rhedwyr eraill ac ambell un yn cael trafferth ac mae'n arferiad os oes un mewn helynt eich bod yn aros i wneud yn siwr bod popeth yn iawn neu bod cymorth wrth law cyn symud ymlaen.

Fel nifer fawr o bobl ddechreuodd Chris gerdded mynyddoedd yn ystod y cyfnod clo, ond yn hytrach na chilio, tyfu wnaeth ei ddiddordeb. Beth oedd pwrpas cerdded pan fedrwch redeg. Dechreuodd gymryd rhan mewn rasus gan chwilio am yr her nesa' pob tro. Er mwyn gwneud y râs arbennig hon bu'n ymarfer ers mis Rhagfyr gan redeg, beicio ac ymarfer gyda phwysau.

Wedi ei gefnogi mae Einir ac roedd hi yno hefyd yn ystod y râs hon. Roedd mannau pob hyn a hyn ar y ffordd lle cawsai'r rhedwyr gyfle am ychydig o fwyd yn gynhaliaeth a chyfle i deulu a ffrindiah wneud yn siwr bod popeth yn iawn ac i ddangos cefnogaeth. Felly rhwng nos Wener ac oriau mân fore Sul bu Einir a Bleddyn ei yrrwr hawddgar a chyfaill i'r ddau yn teithio o fan i fan yn gwneud hyn. Wnawn ni ddim sôn yma am Rhyd Ddu a maes parcio stori erbyn rhywbryd arall efallai.

Cyfaddefodd Chris ei fod



unwaith wedi teimlo fel gorwedd ar y gwair a chysgu, ond dim ond am ychydig eiliadau yn unig cyn parhau. Gorffennodd yn Llanberis a hithau'n oriau mân fore Sul, yn dawel ac yn dywyll. Yn sicr dydi Chris ddim yn dweud "byth eto" ond yn hytrach "be nesa?" Pwy a wyr yn y dyfodol y byddaf yn sgrifennu am y Mont Blanc Trail! Llongyfarchiadau mawr Chris a phob hwyl i ti.

# Aur i Pen-y-bryn

Mae Ysgol Pen-y-bryn, Bethesda, wedi derbyn y Fedal Aur am y Siarter Iaith Gymraeg – cydnabyddiaeth o ymroddiad, ymdrech a brwdfrydedd a ddangoswyd gan staff a disgyblion fel ei gilydd wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth.

"Heb os, mae holl gymuned yr ysgol wedi gweithio'n galed – disgyblion, staff, rhieni a'r llywodraethwyr – tuag at yr un nod: hybu, hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd," meddai'r Dirprwy, Llinos Morgan-Jones, sy'n Gydlynydd Siarter Iaith yr Ysgol.

**Y daith at yr aur**

Cychwynnodd y cyfan gyda holiadur a gafodd ei berchnogi gan yr ysgol, ac yna aeth y Cyngor Ysgol ati i lunio cynllun gweithredu, yn seiliedig ar y canlyniadau. Bu'r Cyngor Ysgol yn weithgar iawn yn rhannu a chasglu syniadau gan eu cyfoedion, fel bod **PAWB** yn rhan ohono.

Sefydlwyd y *Dreigiau Doeth* yn dilyn ymweliad gan yr Urdd i hyfforddi'r plant ar gemau newydd cyffrous i'w chwarae tu allan. Yn ystod amser chwarae gwlyb gwelwyd bod angen mwy o annog ac atgoffa, felly cyflwynodd y plant gemau syml a hwyliog i'w dosbarthiadau i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.



Bob wythnos yn y gwasanaeth torfol, cyflwynodd pob dosbarth stori neu ddigwyddiad pwysig yn hanes Cymru: o hanes y *Mimosa*, Llywelyn ein Llyw Olaf, Taith yr Iaith, hanes cyfieithu'r Beibl a Mari Jones, Tryweryn ac ati – drwy ddrama, animeiddio a chyfryngau diddorol.

Roedd wythnos 3P (Profiadau, Pedwar Diben a Phwerau Dysgu) yn ffordd wych o ddangos bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth – mewn gweithgareddau hamdden ac ati. Bu'r plant yn ddigon ffodus o gael ymweld â Chanolfan Ddŵr Conwy, a Zip World ym Metws y Coed. Eleni hefyd, bu cyfleoedd i ymweld â Glan-llyn a Chaerdydd.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd yr Eisteddfod Ysgol, lle cafodd plant gyfle i gyfansoddi cerddi ac ennill cadeiriau a wnaed gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd cystadlu mewn amrywiaeth o gategorïau megis dweud jôc, dalent, llefaru, canu, offerynnol, coginio, a chelf 2D a 3D – rhywbeth at ddant pawb. Yn wir, bu pob disgybl yn cystadlu ar y diwrnod arbennig hwnnw.

O ganlyniad i'r brwdfrydedd a ddeilliodd o'r Eisteddfod Ysgol, fe ysbrydolodd hyn nifer fawr o ddisgyblion i gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, gyda phedair o enethod blwyddyn 5 wedi dod yn drydydd drwy Gymru gyfan yn Eisteddfod yr Urdd eleni am Berfformio Golygfa, camp a hanner!!

**Cymru, Cymraeg a Chymuned**

Ychwanegodd Llinos Morgan-Jones, Cydlynydd Siarter Iaith ysgol Pen-y-bryn: "Roeddem yn

# Gwrthod Datblygiad Twristaidd Coed y Wern, Glasinfryn

Mae cais i adeiladu parc gwyliau yng Nghoed y Wern, Tŷ Gwyn, Glasinfryn, a dderbyniodd 5,000 o wrthwynebiadau, wedi cael ei wrthod gan bwyllgor cynllunio Cyngor Gwynedd yn ystod mis Mai yn dilyn ymweliad â'r safle.

Cyflwynwyd y cais cynllunio gwreiddiol yn 2018 i ddatblygu 40 o gabanau gwyliau ar y safle ac fe arweiniodd hyn at ymgyrch gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen a Chylch yr Iaith i wrthwynebu'r datblygiad diangen hwn a fyddai'n arwain at or-ddarpariaeth lletyau gwyliau a gor-dwristiaeth yn Nyffryn Ogwen a Gwynedd.


Rhan o Goed y Wern

Roedd Luxury Lodge Group Ltd o Fanceinion, drwy'r asiant Helen Ashby-Ridgway (Lichfields), wedi cyflwyno cynlluniau diwygiedig i godi 25 o unedau gwyliau a phedwar pod clampio yng Nghoed y Wern, Glasinfryn.

Mae'n galonogol ein bod yn gallu adrodd bod pwyllgor cynllunio Cyngor Gwynedd wedi pleidleisio i wrthod y cynllun, yn groes i argymhellion swyddogion i'w gymeradwyo.

awyddus i'r plant wybod mwy am yr hyn sydd gan Fethesda i'w gynnig.

"Trefnodd y Cyngor Ysgol bythefnos 3C – Cymru, Cymraeg a Chymuned. Cawsant gyfle i ymweld â chaffi Coed y Brenin a sgwrsio gyda'r to hŷn, mynd i Neuadd Ogwen i weld beth sydd ar gael yno drwy'r Gymraeg ac ymweld â'r llyfrgell. Cyfle anhygoel i ddangos y stôr o gyfleoedd sydd gan y Dyffryn i'w gynnig yn yr iaith Gymraeg.

"Agwedd bwysig arall oedd meddwl am y dyfodol a symud i fyd busnes. Dechreuom brosiect busnes gan ddefnyddio £10 yn unig, gyda'r her o oroesi drwy'r flwyddyn. Fe dyfodd pob busnes drwy ail-fuddsoddi'r elw i'w wella.

"Cawsom dair ffair fusnes a fynychwyd gan blant yr ysgol, rhieni, ac ysgolion Abercaseg a Dyffryn Ogwen. Fe gafodd y plant gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol wrth gyfathrebu â chwsmeriaid, busnesau eraill, ac wrth ebostio, llythyru ac ati.

"Cawsom sgwrs gan Elin o fusnes pitsa lleol yn Llanberis – profiad gwerthfawr a ysbrydolodd y plant. Dyma entrepreneuriaid y dyfodol sydd yn llwyr ddeall manteision dwyieithrwydd.

"Wrth gwrs, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau – nid ydym yn berffaith o bell ffordd – ond mae cynnydd wedi bod, nid yn unig yn yr holiadur ond hefyd yn y balchder a'r angerdd sydd gan blant Penybryn. Yn ddi-os, bydd y gwaith caled yn parhau er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r Wobr Aur am flynyddoedd i ddod."

Llongyfarchiadau mawr i'r plant a'r staff ar eu llwyddiant!

*Dioch i Ogwen 360 a Carwyn Meredydd*


## Gorddatblygu

Dywedodd yr aelod lleol, y Cyng. Beca Roberts, wrth y cyfarfod ei fod yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ystyriwyd yn ddatblygiad bach. Anogwyd y pwyllgor i wrthod y cais am y rhesymau canlynol: gorddatblygu; y ffordd brysur beryglus; diffyg trafnidiaeth gyhoeddus; effaith ar y gymuned a'r dirwedd; a chynnydd yn y drafnidiaeth a sŵn; Hefyd, ei fod yn lleoliad anaddas, gan nodi bod tua 100 o gabanau moethus eisoes ym Mhont Ogwen ger Bethesda.

Roedd Cyngor Cymuned Pentir yn pryderu am faint y datblygiad a'r effaith ar drigolion lleol yng Nglasinfryn yn ogystal â'r effaith ar yr amgylchedd lleol. Yn 2023, roedd Cyngor Cymuned Llandygái wedi argymell gwrthod ar sail bod mwy na digon o letyau gwyliau yn yr ardal.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, roedd gwrthwynebiadau blaenorol wedi tynnu sylw at yr effaith ar goed; bioamrywiaeth; trafnidiaeth a diogelwch ffyrdd; o ran perygl o lifogydd; y ffaith na fyddai dim budd i'r gymuned leol; gormodedd o unedau gwyliau; effaith ar drigolion; gorddatblygu; gordwristiaeth, a'r effaith ar gymunedau lleol a sefyllfa'r Gymraeg. Mae'n dda gweld bod y pwyllgor cynllunio wedi gwrando ar y farn leol yn yr achos hwn.

# Wythnos Cymorth Cristnogol 11eg – 17eg Mai 2025




Unwaith eto roedd thema Wythnos Cymorth Cristnogol yn tynnu sylw at gymunedau mewn gwledydd eraill sydd yn dioddef oherwydd newid yn yr hinsawdd, gyda stori Aurelia, sydd yn ffermio yn Guatemala, lle mae'r tywydd poeth ac eithafol yn dinistrio ei fferm. Ond diolch i hyfforddiant gan Congcoop, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, mae hi bellach yn arwain ei chymuned i dyfu cnydau gwydn, gwneud gwrtaith ac arbed dŵr.

Fel y llynedd, cafodd yr amlenni eu dosbarthu i gartrefi'r ardal a gofynnwyd i bobl eu dychwelyd i fannau casglu, sef Partneriaeth Ogwen a Siop Rachub. Rydym yn ddiolchgar i'r ddau sefydliad hyn am gytuno i'n helpu. Rhoddwyd cyfeiriad lleol arall ar gyfer Talybont a chafwyd casgliad drws i ddrws yn Llandygái. Diolch yn fawr hefyd i bob gwirfoddolwr a roddodd yr amlenni drwy'r drysau ym Methesda, Tregarth, Gerlan, Rachub, Llanllechid, Carneddi a Thalybont.

Roedd yn braf iawn cynnal bore coffi eleni ar 10fed o Fai yng Nghapel Jerusalem. Diolch yn fawr i Neville Hughes a Walter Williams am ei drefnu, y stondinwyr a'r helpwyr a phawb wnaeth fynychu. Llwyddwyd i godi £377.46.

Diolch i'r Parch. Nerys Griffiths am drefnu ac arwain y gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol yng Nghapel Jerusalem fore Sul 18fed o Fai. Casglwyd £95.00 at yr achos.

Cafwyd £335 fel rhoddion gan eglwysi yr ardal, sef Eglwys y Gelli yn Nhregarth, Eglwys Sant Tegai, Llandygái, Eglwys Unedig Bethesda, Capel Amana, Mynydd Llandygái a Chapel Shiloh Newydd, Tregarth. Cyfrannodd Eglwys Glanogwen, Bethesda, trwy gynnal stondin yn y bore coffi.

Derbyniwyd £695.92 yn ôl yn yr amlenni, ac ar ben hynny ni wyddom faint o bobl sydd wedi rhoi trwy dderbyn yr opsiwn gwneud rhodd ar-lein a oedd ar yr amlen hefyd. A bydd modd i Gymorth Cristnogol hawlio £139.95 trwy Rodd Cymorth gan y rhai sy'n medru manteisio arno.

Mae'n braf cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi cymaint o arian eleni, er gwaetha'r amgylchiadau ariannol caled sydd yn ein hwynebu. Codwyd £1,903.38 yn uniongyrchol trwy'r gweithgareddau, sy'n cynyddu i gyfanswm o £2,043.33 gyda Rhodd Cymorth.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr wythnos.

Lester Bath, Cydlynydd Wythnos Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch.

# Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

**Ymweliad ag Eglwys a mynwent hanesyddol Llandygâi, yn cael ei arwain gan Ann Williams (Warden y Ficer) ac eraill. 6.00yh – Nos Fercher, Gorffennaf 16eg 2025**

Mae gwahoddiad i aelodau'r Gymdeithas a chyfeillion i ymuno mewn ymweliad ag Eglwys a mynwent hanesyddol Llandygâi, dan arweiniad Ann Williams. Byddwn yn ymgynnull yn y fynedfa i'r Eglwys erbyn 18.00yh, a bydd lle parcio ar gael ger Neuadd Talgai, gerllaw. Ceisiwch rannu ceir, os yn bosib – neu defnyddiwch y bws. Gan ein bod hefyd yn bwriadu crwydro rhywfaint yn y fynwent gyfagos, dewch a cot law, a gwisgwch esgidiau addas.

Ar ddiwedd y daith, bydd paned ar gael yn Neuadd Talgai.

Os ydych yn bwriadu ymuno, yna gadewch i Dafydd Roberts wybod erbyn 14 Gorffennaf 2025 trwy anfon neges e-bost at dafydd@caerwern.cymru er mwyn hwyluso'r trefniadau paned.

Gofynnwn i bawb sy'n ymuno i dalu cyfraniad o £2.00 y pen. Cewch wneud hynny ar y noson - derbynnir arian parod yn llawen.

# YSGOL ABERCASEG

Mae tymor y gwanwyn wedi bod yn llawn bywyd a hwyl yn Ysgol Abercaseg, gyda phob wythnos yn cynnig cyfleoedd newydd i ddysgu a mwynhau…

Dechreuodd ein dathliadau gyda'r Parêd Pasg traddodiadol, lle'r oedd y plant a'u rhieni wedi paratoi hetiau Pasg creadigol ac unigryw. Roedd safon y gwaith yn rhagorol unwaith eto eleni, a bu'n fraint gallu cydnabod ymdrechion pawb. Diolch o galon i Tesco am eu caredigrwydd trwy ddarparu gwobrau, ac i'n rhieni ffyddlon am eu cefnogaeth gyson ac am annog y plant i gymryd rhan.



Roedd y Parti Pasg yn uchafbwynt arall i'r plant, gyda gemau traddodiadol, castell neidio a gweithgareddau hwyliog yn llenwi'r dydd. Roedd pawb yn gwenu, a'r plant wedi mwynhau'n fawr iawn – diwrnod i'w gofio!





Bu'r ysgol yn ffarwelio efo Sioned Jones, sy'n gadael Ysgol Abercaseg ar ôl 8 mlynedd o wasanaeth ymroddedig. Bydd ei chariad at y plant a'i chreadigrwydd yn cael eu colli'n arw, ond rydym yn ei dymuno'n dda yn ei swydd newydd yn y maes blynyddoedd cynnar.

Dangosodd y plant eu caredigrwydd tuag at eraill drwy gymryd rhan yn yr Hop Cwningen er budd Hosbis Dewi Sant. Gan neidio a dawnsio ar yr iard, cawsant hwyl wrth godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth ariannol i'r elusen arbennig hon.

Mae Blwyddyn 2 wedi dechrau gwersi nofio gyda brwdfrydedd, gan ddysgu sgil bywyd hanfodol. Rydym yn hynod falch o›u cynnydd ac yn edrych ymlaen at weld eu hyder yn tyfu ymhellach.

Bob wythnos, rydym yn cynnal Gwasanaeth Pencampwyr Presenoldeb, gan wobrwyo'r dosbarth â'r presenoldeb uchaf. Mae hyn wedi meithrin ymdeimlad o falchder a chyfrifoldeb yn y plant, gyda chystadleuaeth iach rhwng bob dosbarth!

Mae plant Blwyddyn 2 hefyd wedi ymweld ag Ysgol Pen-y-bryn sawl gwaith, fel rhan o'u paratoadau ar gyfer symud ymlaen i Flwyddyn 3. Mae'r ymweliadau hyn wedi bod yn amhrisiadwy o ran meithrin hyder a chynefino â'r lleoliad newydd.

Rydym hefyd yn falch iawn o fod wedi dychwelyd i ardd yr ysgol, dan arweiniad Aisha, lle mae'r plant wedi mwynhau'r profiad ymarferol o dyfu llysiau. Cafwyd cnydau hyfryd o nionod y tymor hwn, ac mae'r plant wedi dysgu am dyfiant, cyfrifoldeb ac iechyd – oll drwy brofiadau go iawn yn yr ardd.

Diolch i'r holl staff, disgyblion a theuluoedd am greu cymuned ysgol mor arbennig. Edrychwn ymlaen at fwy o hwyl, dysgu a chydweithio dros yr wythnosau nesaf!




C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

## Pres

Yda chi'n cofio'r rhigwm bach am gyfri' pres yn y golofn fis Ebrill, wel dyma i chi fwy am y pwnc.

'**Pres**' ddwedwn ni am bob math o arian. **Pres bocad** ddwedwn ni am y swm o bres mae plant yn ei gael gan eu rhieni. Ar un adeg '**copars**' oedd pres mân wedi eu gwneud o gopr. Cawsant eu gwneud o bres yn 1860, a dyma ddechrau eu galw'n '**bres**'. Darnau arian yn unig oedd '**arian**' ('arian gloywon'), ond mi ddaeth y gair i olygu pres yn gyffredinol gan gynnwys y term '**arian parod**'. Swm o bres a roddir fel gwerthfawrogiad am joban o waith gan grefftwr neu am wasanaeth mewn bwyty ydy '**cil dwrn'**,
Diflannodd y '**ffarddin**' (chwarter ceiniog), a dim ond yn y gân boblogaidd 'Hen Feic Peni-ffardding fy Nhaid' y cyfeirir ati bellach – olwyn fawr y beic fel ceiniog a'r olwyn fach fel ffarddin.
Ar ôl mabwysiadu'r drefn ddegol yn 1970, does neb yn defnyddio'r enwau hyn: '**dima**' ('dimai', sef hanner ceiniog); '**grôt**' (4 ceiniog); '**swllt**' (12 ceiniog); '**hanner coron'** (2 swllt a 6 cheiniog); '**coron**' (5 swllt);); '**papur chwigian'** (chweugain = 120 ceiniog = deg swllt, sef hanner punt; a'r '**papur punt**'. Yr hen bunt, cyn y papur punt, oedd '**sofran**', darn aur a aeth allan o gylchrediad yn 1914. Ni chlywir llawer heddiw yn dweud '**niwc**' am geiniog, ond fe'i clywid yn aml yn yr ardal erstalwm. Mae o'n dal ar lafar yng Nghaernarfon i ryw raddau.
Er bod y ddimai wedi mynd, mae'r dywediad '**Does gin i ddim dima goch y delyn**' yn dal efo ni. Y 'coch' oedd lliw'r metal, sef copr, ac roedd llun o delyn arni.

Diddorol bod enw ar ddarn arian o Unol Daleithiau America wedi dŵad yn rhan o'n hiaith ni, sef '**cent**', y darn efo'r gwerth lleiaf – canfed ran o ddoler. Mae o'n cael ei ddefnyddio yn y dywediad '**Does gin i ddim sentan**' i ddweud nad oes gynnon ni ddim o'r mymryn lleiaf o bres. Gyda llaw, mae llywodraeth yr Unol Daleithiau newydd benderfynu na fydd bathu mwy o '**cents**' a bydd y darn arian yn mynd allan o gylchrediad yn y wlad honno.




## Ambell Air ac Ymadrodd

**morol.** 'Ymorol' ydy hwn, ac mae o'n medru golygu sawl peth. Ran amlaf, rydan ni'n ei ddefnyddio fo i olygu gofalu bod rhywbeth yn digwydd – "Cyn iti roi benthyg y llif gadwyn 'na iddo fo, wnei di forol ei bod hi'n gweithio'n iawn?"

**chwythu.** Ydy, mae'r gwynt yn chwythu, ac mi fyddwn ni'n chwythu canhwyllau cacan ben-blwydd. Mi fyddwn ni hefyd yn ei ddefnyddio pan fyddwn ni'n gorfod anadlu'n drwm – "Ew, ro'n i'n chwythu wrth ddŵad i fyny'r allt."

**stryffaglo.** Cael trafferth i wneud rhywbeth – "Roedd yr hogyn bach yn stryffaglo i roi ei sanau am ei draed."

**sowdwl.** Dyma ddwedwn ni am 'sawdl', sef rhan ôl gwaelod troed ac esgid.

**gogor.** Rhidyll go fawr i wahanu pridd oddi wrth gerrig ydy hwn, ac mae'r enw'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cyflwr – "Mae 'nghof i 'fath â gogor" meddan ni pan fyddwn ni'n methu cofio rhywbeth neu'i gilydd; a bydd rhywun yn 'gogor-droi' pan fydd o'n troi yn ei unfan yn llythrennol neu'n methu symud ymlaen efo rhyw dasg.

**waeth befo.** Ystyr hwn ydy na ddylid poeni am rywbeth neu deimlo siom ar ôl methu cyflawni rhywbeth. Mae o fel dweud 'di o'm ots' neu 'paid poeni, 'di o'm gwahaniaeth' – "Waeth befo. Gei di gyfle eto.'

**blin 'fath â tincar.** Arbennig o flin. Gweithiwr yn teithio o le i le yn trwsio sosbenni a phethau metal eraill oedd tincer. Tybed a oedd tinceriaid yn tueddu i fod yn flin ac yn ymateb yn swta a diamynedd i'w cwsmeriaid.oherwydd eu blinder yn teithio ac yn cysgu'n arw, a'r ffaith nad oedden nhw'n cael cael o bres am eu gwaith.

**heglu hi.** Rhedeg i ffwrdd ar ôl gwneud rhyw weithred amheus yn amlach na pheidio. "Roedd o 'di heglu hi erbyn i'r plismyn ddod."

**rwdlan.** "Paid a rwdlan!" Fe glywn hyn yn aml pe bai rhywun yn meddwl eich bod unai yn dweud rhywbeth gwirion, neu efallai nad ydyw yn cytuno a chi.

**hen sinach.** " Paid a gofyn i'r hen sinach yna am ddim byd." Person blin ac annifyr ydyw sinach, ac yn wir mae ei ynganiad yn rhoi rhyw deimad digon ych a fi iddo!

**Malwan.** Rydym wedi sôn o' blaen a dalfyrru geiriau, ond beth am hwn. Malwan a ddywedwn am falwoden, efallai mai 'malwod' ydy'r lluosog sy'n ein peri i ni wneud hynny. Ond hefyd ers talwm dywedai llawer o bobl 'letan' am letusen. Ydych chi yn dweud hyn?

Cofiwch anfon unrhyw sylw. Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN. 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk


STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN
cynghorydd.Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru

07765 400140 Arllechwedd
07747 690456 Gerlan
07789 742092 Canol Bethesda
07436 927237 Tregarth & Mynydd Llandygai
07949 034967 Rachub

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

### Carwyn Huws

Newyddion sobor o drist oedd clywed fod Carwyn Huws wedi ein gadael yn dilyn gwrthdrawiad ar yr A5 ger Capel Curig. Mae'n teimlo fel ddoe pan oeddet efo ni yma yn y Chweched Dosbarth. Mae cymuned yr ysgol yn meddwl amdanoch, yr holl deulu a ffrindiau sydd wedi eu brawychu gan eich colled.

### 'Huw Fyw' - Pontio

Cafodd disgyblion y Chweched sy'n astudio'r Gymraeg noson wych yn Pontio yn gwylio 'Huw Fyw'- drama lwyfan gyntaf gan Tudur Owen. Perfformiad hwyliog a sbardunodd drafodaethau dwfn am themâu amrywiol.

Diolch o galon i Ms Heledd am drefnu'r daith – mae'n fraint i'r disgyblion dderbyn cyfleoedd mor gyfoethog!




Criw blwyddyn 12 yr Adran Gymraeg

### Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mwyaf i Gwenno Beech ar ei pherfformiad arbennig yn Eisteddfod yr Urdd fis diwethaf. Llwyddodd Gwenno i ddod yn 3ydd trwy Gymru gyfan wrth berfformio cân o sioe gerdd (blwyddyn10 ac o dan 19eg oed) yn erbyn 16 o gystadleuwyr teilwng iawn. Diolch o galon hefyd i Mr Thomas am fynd draw i Margam i gyfeilio ac i gefnogi.

### Wyddfa Ddi-blastig

Bu Harri a Jack yn hynod broffesiynol tra'n cynnal cyfarfod cynllunio ar gyfer gwireddu eu syniad o gael Wyddfa ddi-blastig. Yn bresennol oedd swyddogion ar ran Parc Cenedlaethol Eryri, Alec Young, Swyddog Carbon, y technegydd Robin ac Arwel, Swyddog Pobl Ifanc.

Mae'r bechgyn wedi bod wrthi ers misoedd yn paratoi, rhannu eu gweledigaeth, ac yn cyfweld ag artistiaid lu cyn cytuno ar ddewis yr artist lleol Peri Smith i gydweithio â hwy.

Mae tasg enfawr o drefnu deunyddiau, amser, cyllideb a chefnogaeth cyd-ddisgyblion o'u blaenau dros yr wythnosau nesaf, gyda'r bwriad o ddatgelu eu darn celf gorffenedig yn Llanberis erbyn dechrau mis Gorffennaf.

Amseru perffaith gan y bechgyn i sicrhau y bydd y miloedd sydd am droedio'r Wyddfa dros yr haf yn ei weld a'r neges yn cael ei chyfleu yn glir iddynt eu bod eisiau gwarchod harddwch ein hardal yn hytrach na'i ddinistrio hefo sbwriel a phlastigion.

### Ymweliad â Gwaith Trin Dwr Gwastraff

Bu criw blwyddyn 8 a 9 ar ymweliad yng ngwaith trin dŵr gwastraff yn Nhreborth, Bangor fis Mai. Roedd yn gyfle gwych i'r grŵp ddysgu sut roedd trin a glanhau dwr gwastraff yn yr ardal.

Wedi taith tu ôl i'r llenni o amgylch y safle i weld y broses, cawsom hefyd ddysgu sut mae tîm CCTV yn archwilio'r rhwydwaith gwastraff. Diolch yn fawr am brofiad diddorol dros ben.

### Lleisiau Ifanc yn Arwain y Ffordd mewn Gweithredu Newid Hinsawdd

Mae dros 150 o ddisgyblion brwdfrydig Blwyddyn 7 ac 8 o Ysgol Dyffryn Ogwen wedi cymryd rhan mewn prosiect creadigol pwerus ac ysbrydoledig gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd. Mewn cydweithrediad â dau ymarferydd arbenigol a'r mudiad GwyrddNi, arweiniodd y disgyblion ymgyrch artistig lawn i rannu eu negeseuon gyda'r gymuned ehangach.

Arweiniwyd y prosiect, sy'n unigryw yn ei strwythur, gan ddisgyblion o'r dechrau i'r diwedd. Cymerodd y disgyblion berchnogaeth lawn o'r broses, gan gynnwys llunio rhestr fer a chyfweld ag ymarferwyr posibl i weithio ochr yn ochr â nhw. Y canlyniad? Mynegiant deinamig a meddylgar o ymwybyddiaeth amgylcheddol a yrrir gan ieuenctid a arweiniodd at ymddangosiad cofiadwy yng ngharnifal mawreddog y dref!

Cydweithiodd disgyblion Blwyddyn 7 gyda Manon Prysor i greu gweithiau celf bywiog, trawiadol yn adlewyrchu eu barn ar yr argyfwng hinsawdd. Yn y cyfamser, gweithiodd Blwyddyn 8 yn agos gydag Angharad Beech, gan ddatblygu perfformiadau dramatig pwerus a oedd yn cyfleu negeseuon amgylcheddol brys trwy ddrama a symudiad.

Daeth y carnifal yn llwyfan ar gyfer rhannu negeseuon pwysig wrth i'r disgyblion chwifio eu baneri, cerdded i guriad y drwm a chario eu campweithiau anferth (gan gynnwys pysgodyn enfawr!) ar hyd stryd Bethesda!

Cafodd nifer o ddisgyblion eu cyfweld ar raglen Heno ar S4C, lle bu iddynt gyfleu eu negeseuon yn glir, yn hyderus ac yn angerddol am bwysigrwydd achub y blaned a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Diolch o galon i bawb a wnaeth y prosiect ysbrydoledig hwn yn bosibl. Diolch yn arbennig i Manon Prysor ac Angharad Beech am eu harbenigedd creadigol, i Chris a staff GwyrddNi am ei gydlynu a'i gefnogi, i'r staff ymroddedig a helpodd i arwain y broses, ac yn anad dim i'r disgyblion anhygoel, y mae eu brwdfrydedd, eu harweinyddiaeth a'u hangerdd wedi dod â'r prosiect yn fyw.

### Rygbi

Llongyfarchiadau enfawr i'r timau rygbi iau a'r Swyddog Hwb Rygbi Osian Jones ar gyfnod prysur a chyffrous o rygbi!




Da iawn i dîm blwyddyn 7 a gyrhaeddodd rownd derfynol Cwpan y Merched, er gwaethaf colled anodd yn erbyn tîm cryf Ysgol Brynhyfryd ddoe, yn enwedig ar ôl eu curo yn y grŵp! Hefyd, clod mawr i dimau bechgyn blwyddyn 9 a 10 a genethod blwyddyn 8 a 9 a roddodd bopeth yn y rowndiau go-gyn-derfynol. Ymdrech wych gan bawb, llawer i fod yn falch ohono!

### Criw Rygbi blwyddyn 7 Athletau

Llongyfarchiadau i ddisgyblion talentog Dyffryn Ogwen ar eu perfformiadau wrth gynrychioli Ysgolion Arfon ym mhencampwriaeth athletau Eryri. Perfformiadau gwych gan bawb - Chidera Dike - 2il yn y naid uchel. Gruff Beech - 2il yn y ddisgen. Erin Morris - 2il yn y 100 medr Medi Tipton - 4ydd yn y 100 medr Raffi Simone wedi taflu'n bell iawn yn y pwysau yn agos iawn i'w orau personol.



Raffi, Gruff, Chidera, Erin a Medi

### Clwb Criced a Bowlio Bethesda

Hoffai'r adran Addysg Gorfforol ddiolch yn fawr am gael benthyg y cae ar gyfer gwersi criced yr ysgol. Gobeithiwn y bydd mwy o ddisgyblion yn datblygu hyder i ymuno â sesiynau'r clwb ar ôl derbyn y profiadau gwerthfawr hyn. Diolch i Mrs Wallis am drefnu.




Disgyblion blwyddyn 9 yn mwynhau defnydd o'r clwb

# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

## Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas

**Gwasanaethau'r Sul**

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

**Mehefin 22**: Parch Aled Davies
**Mehefin 29:** Trefniant lleol
**Gorffennaf 6**: Dr Ian Morris
**Gorffennaf 13**: Ellie Jones

Croeso cynnes i bawb.

**Adroddiad Arolwg Estyn Ysgol Rhiwlas**

Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Rhiwlas am dderbyn adroddiad ardderchog gan Estyn yn dilyn eu hymweliad diweddar.

Dyma ran o'r hyn yr oedd gan yr arolygwyr i'w ddweud:

"Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd allanol i wella profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio'r warchodfa natur, gan ddysgu am wahanol fathau o adar a'u bwydo'n rheolaidd.

Mae'r disgyblion hynaf yn gyfrifol am fagu gwenyn mêl yr ysgol, gan dderbyn hyfforddiant i drin y cwch gwenyn a chynaeafu mêl i'w werthu yn y gymuned leol. Mae'r dulliau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad eu medrau cydweithio, medrau cymdeithasol a dealltwriaeth y disgyblion o'r byd naturiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol ac yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u hamgylchedd naturiol."

Roedd yr adroddiad yn canmol yr addysgu, a thynnodd yr arolygwyr sylw at yr arweinyddiaeth gref a'r awyrgylch cadarnhaol sy'n annog llwyddiant disgyblion. Llongyfarchiadau i holl staff, disgyblion, a llywodraethwyr Ysgol Rhiwlas. Mae'r pentref yn sicr yn ymfalchïo yn eich llwyddiant.

**Picnic yn y Parc**

Bydd Sadwrn, Gorffennaf 19 yn un go hanesyddol gan mai dyma fydd y tro cyntaf i ddigwyddiad 'Picnic yn y Parc' gael ei gynnal yn y cae chwarae yng ngwaelod y pentref. Menter newydd wedi ei drefnu gan Cyfeillion Rhiwlas yw hon a bydd gweithgareddau amrywiol yn digwydd yn y cae rhwng un-ar-ddeg o'r gloch y bore a dau o'r gloch y pnawn: Poster Picnic yn y Parc.

**Cydymdeimlo**

Collodd mwy nag un aelwyd yn y pentref un o'u hanwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ddiwedd Ebrill bu farw Valerie Miserotti, Valdor, yn 84 oed yng nghartref Nyrsio Glan Rhos, Brynsiencyn, ac anfonwn ein cydymdeimlad cywir i'w gŵr Dorino yn ei brofedigaeth.

Ar Fai 17 bu farw Eluned Mair Williams, Carreg y Gath, yn 52 oed. Roedd Eluned yn hanu o Frynerwest, Bryncrug, Meirionnydd, yn wreiddiol ac yn ei thro bu'n gweithio fel Nyrs Plant yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysgol Pendalar ac yn ddiweddarach bu'n ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd ym Mhrifysgol Bangor lle roedd yn uchel ei pharch. Anfonwn ein cydymdeimlad cywir i Dafydd a'r genod, Megan a Gwen, yn eu colled lem.

**Merched y Wawr**

Er ein bod yn rhoi sylw i bwnc dyrys - a gofidus hefyd - ar sawl cyfri, cawsom gyfarfod buddiol, positif yng nghwmni Caighrene Mathie o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn ein cyfarfod mis Mai. Mae Caighrene yn gweithio fel cydlynydd mwy nag un canolfan dementia yn y gogledd a bu'n rhannu ei phrofiad o weithio yn y maes yn ogystal â sôn am y mannau y mae modd dod o hyd i gefnogaeth i rai â'r cyflwr. Rhannodd lyfrynnau yn llawn gwybodaeth ymarferol gan ein goleuo am union natur yr afiechyd a sut y gallwn ninnau ein hunain fod o gymorth wrth sgwrsio efo rhai sydd â dementia. Soniodd hefyd am y cymorth sydd ar gael drwy Lwybr Cymorth Cof Gogledd Cymru i rai sy'n gofalu am anwyliaid sydd â dementia.
Trefnwyd y cyfarfod gan Catherine, paratowyd y te gan Linda ac enillwyd y raffl gan Annes.

**Clwb Crefft**

Derbyniodd y Clwb Crefft, sy'n cyfarfod bod nos Lun rhwng 7 a 9, newyddion gwych yn ddiweddar pan gawsant wybod eu bod wedi ennill grant gan LleNiLleChi er mwyn creu gwaith celf i'w osod yn yr ystafell gymunedol. Mae un wal wedi ei haddurno â theils lliwgar yn darlunio gwahanol agweddau ar y pentref yn barod a bydd yn ddiddorol gweld beth fydd ffrwyth y cydweithio ar y prosiect arbennig yma. Sally Ellis fydd yn arwain a bydd cyfle i blant ac oedolion gyfrannu fel ei gilydd.

## Clwb Rhiwen

Daeth nifer o'r aelodau ynghyd prynhawn Mercher Mai 21, yn y neuadd bentref. Ein gwraig wadd oedd Gwyneth Hosker o Hen Golwyn, Roedd y prynhawn wedi ei neilltuo i wneud trefniadau gyda blodau'r gwanwyn, ond gan ein bod wedi cael gwanwyn buan a blodau'r tymor wedi cilio cafwyd prynhawn diddorol yn gwrando ar Gwyneth ac yn ei gwylio yn creu trefniadau gyda dail a blodau tymhorol o'r ardd. Cafodd yr aelodau dro ar greu trefniadau eu hunain wedyn.



Helen a Nia oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad. Ni fydd cyfarfod yn y Neuadd ym mis Gorffennaf gan y bydd yr aelodau yn ymweld â Caffi Cartref, Y Bontnewydd, am de hufen i gloi'r tymor. Bydd y Clwb yn ail ymgynnull yn y Neuadd ar Fedi 17. Croeso i aelodau hen a newydd. Rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch.

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
*Bysus Gwyrdd Rhiwlas*
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

# YSGOL TREGARTH

**Rygbi**
Cyfle'r genethod oedd hi dro yma i gymryd rhan yng nghystadleuaeth tag Yr Urdd. Aeth dau dîm draw i glwb rygbi Caernarfon i gynrychioli'r ysgol. Cafodd tîm B 4 gêm gan ennill un a cholli 3, tra enillodd tîm A 4 allan o 5 gêm yn y grwpiau. Aethant ymlaen i'r chwarteri olaf lle gollwyd yn erbyn Ysgol Llanllechid yn ystod amser ychwanegol ar ôl gêm hynod gyffrous ac agos.






**Murlun y ganolfan**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 gyfle arbennig i fynychu agoriad swyddogol murluLlun Ysgol Tregarthn newydd sbon ar wal Canolfan Tregarth. Mae plant blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn rhan bwysig o'r broses greadigol drwy helpu i gynllunio, dylunio ac awgrymu syniadau er mwyn i'r artist Darren Evans ddylunio a chreu'r murlun. Roedd y profiad yn gyfle gwych i ddysgu am hanes lleol, ac i glywed hanesion ac atgofion gan bobl y pentref am yr hen reilffordd a'r trenau a oedd unwaith yn teithio drwy Dregarth.

**Criced**
Aeth plant blwyddyn 3 a 4 draw i glwb criced Bangor i gymryd rhan yng nghystadleuaeth criced Yr Urdd. Bu 28 o blant o'r ysgol yno yn cynrychioli 3 tîm gwahanol. Braf gweld gymaint o blant gyda'r brwdfrydedd i gymryd rhan mewn rhywbeth newydd. Fel aeth y gemau yn eu blaen, roedd pob tîm yn dangos cynnydd ac yn dysgu rhywbeth newydd. Da iawn chi blant!

**Casglu sbwriel**
Mae dosbarth Elidir Fawr wedi bod yn dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein byd yn ddiweddar. Buom yn trafod pa mor bwysig ydi peidio taflu sbwriel felly i ffwrdd â ni ar daith o gwmpas y pentref ac ar hyd Lôn Las Ogwen yn casglu sbwriel. Ni welwyd gormod o sbwriel, diolch byth! Ond roedd pawb yn frwdfrydig iawn ac yn awyddus i gael gwared â phob un darn o sbwriel welwyd. Diolch i Partneriaeth Ogwen am gael benthyg yr offer casglu sbwriel.

**Plas Menai**
Cafodd plant blwyddyn 3 eu blas cyntaf o aros dros nos gyda'r ysgol yn ddiweddar pan aethon nhw i Plas Menai, er nad oedd yna lawer o gysgu wedi bod! Cafwyd dau ddiwrnod o weithgareddau llawn hwyl a thywydd bendigedig. Dyma brofiad arbennig iddyn nhw gael datblygu llawer o sgiliau newydd a chael amser i'w gofio am flynyddoedd.

**Mynd ar 'wyliau'**
Cafodd dosbarth Elidir Fawr fynd ar 'wyliau' i gloi eu thema, Costa Rica. Daeth pawb i'r ysgol gyda cês ac roedd angen llenwi cerdyn teithio (boarding pass) cyn mynd. Yna, roedd angen gwirio pasbort pawb, agor pob bag i wneud yn siwr fod y cynnwys yn addas i fynd ar yr awyren cyn pwyso'r bagiau i gyd. Ffwrdd â ni wedyn i eistedd ar yr awyren cyn cael rhywbeth bach i'w fwyta a'i yfed ar y siwrne hir. Cafwyd picnic bach yn Costa Rica cyn teithio nol i Gymru fach.



**Caerdydd**
Yn ddiweddar, cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 gyfle arbennig i fynd ar ymweliad preswyl i Gaerdydd. Yn ystod ein trip, mwynhaodd y plant weithgareddau cyffrous gan gynnwys ymweliad addysgiadol â'r Pwll Mawr, bowlio deg, a sglefrio iâ. Cafwyd profiad gwerthfawr yn y Senedd hefyd, lle cawsant gyfarfod â Sian Gwenllian a Beca Roberts, ein cynghorydd lleol. I goroni'r daith, cawsom gyfle i ymweld â Stadiwm y Principality – profiad bythgofiadwy i bawb! Roedd yn daith llawn hwyl, dysgu a chyfeillgarwch, ac mae'r plant yn siŵr o gofio'r antur am flynyddoedd i ddod.






# CARNIFAL BETHESDA









Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r carnifal, gobeithio bod chi gyd wedi mwynhau gymaint a ddaru ni fel Pwyllgor! Roedd hi'n wych gweld y Stryd Fawr a caeau Dôl Dafydd yn llawn cyffro a bwrlwm.

Roedd hi'n 12 mis prysur i'r Pwyllgor yn trefnu'r diwrnod mawr yn ogystal a threfnu gweithgareddau codi arian. Hoffem ddiolch i chi gyd am roi mor hael yn ystod y flwyddyn a chefnogi ein digwyddiadau. Edrychwn ymlaen tuag at eich cefnogaeth eto blwyddyn nesaf.

Hoffem ddiolch i'r holl fusnesau lleol am noddi'r diwrnod, yn enwedig ein prif noddwyr – Anglesey Solar, Welsh Slate, Felin Fawr Cyf a MKM Building Supplies.

Heb gefnogaeth y gymuned gyfan a'r gwirfoddolwyr sy'n barod i roi eu hamser i ni, ni fuasai'n bosib i ni fel Pwyllgor gynnal y carnifal llwyddiannus yma blwyddyn ar ol blwyddyn.

Roedd digon o weithgareddau ac adloniant ar y cae yn ystod y diwrnod, gan gynnwys cystadlaethau gwisg ffansi, arddangosiadau gan y majorettes, clwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn a drama fer gan ddisgyblion blwyddyn 8, Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd nifer fawr o stondinwyr ar gael yn gwerthu gwahanol crefftau yn ogystal ac amrywiaeth o stondinau bwyd. Cafwyd adloniant gan Efan Electro, sioe triciau hyd, cerddoriaeth reggae ac wrth gwrs Gareth yr Orangutan, sef seren y sioe y flwyddyn hon!

Mawr hefyd yw ein diolch i'r holl rieni a'r plant a bu'n gweithio mor galed yn addurno y cerbydau. Roedd bob un ohonynt yn haeddu clod mawr am eu gwaith caled. Rhaid hefyd cydnabod yr ymdrech ar gwaith amlwg aeth i mewn i wisgoedd bob un o'r cystadleuwyr unigol. Roedd safon y cystadlaethau mor uchel eleni bu bron yn amhosib i'r beirniaid benderfynu ar yr enillwyr. Felly diolch i chwithau hefyd, ein beirniaid am y diwrnod, sef Huw Davies, Gwenno Hodgkins, Claire Morrison ac wrth gwrs Eirian Mabinogion.

Rhaid cofio hefyd am ein teulu brenhinol gwerth chweil sef, Brenin Macsen, Brenhines Phoebe, Tywysog Noa a Tywysoges Cali.

Diolch i chi gyd am fod yn rhan o Carnifal Bethesda 2025.

Da di pobl Pesda! Does wir nunlle gwell fel ein cymuned ni. Edrychwn ymlaen i gynnal y carnifal yn 2026 ac edrychwn ymlaen i'ch gweld chi yno eto.

Diolch o galon gan y Pwyllgor.















# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Aneurin bach yn rhoi dewis (3)
3 Gwasanaeth pwysicaf yr 1 Ar Draws enwog o Lyn Ebwy (3)
5 Ystafell damp heb fur na tho ym Methesda (5)
8 Cafodd gariad wedi cyfarfod Anest bach ar y Maes wrth y castell (5)
9 Y rhif o'r deuddeg sy'n sôn am ddiwedd y tymor braf (7)
10 Ateb negyddol (4)
11 Yli'n soffa newydd sbon. Mae'n fodern iawn (8)
13 Yn draddodiadol, 1 I Lawr yn Llŷn yw prif borthladd y nofiwr yma (6)
14 " - - - - - - Iesu yn llwyddiannus, Gwisg dy gleddyf ar dy glun" WW (6)
17 Wermod i gant, ond gall y gŵr doniol yma wneud i chi chwerthin (8)
19 Taliad papur (4)
22 "Ffrwyth caled yn - - - - - - - " meddai'r cynganeddwr am helfa'r hydref (7)
23 Ogla'r bwyd yn troi'n safonol (5)
24 Gêm o gardiau, efo arlywydd yr UDA efallai yn dal y cardiau gorau (5)
25 Mae'r addewid yn drigain a deg o flynyddoedd medd yr hen air (3)
26 Rhoi eich gair fel yn 25 Ar Draws (3)

**I LAWR**

1 Yn Llŷn mae'n nef medd rhai (5)
2 X ynghanol 1 ac 1 (2,3,2)
3 Chdi a fi (4)
4 Tybed fod tîm rygbi o'r de yn ei defnyddio i wneud cawl ar y tân (6)
5 Mannau gwaith llawer o weithwyr 3 Ar Draws (8)
6 Un heb fawr o atgof yn holi (5)
7 Anrheg yw doli gan y gŵr barfog ar yr hoff ddydd (7)
12 Trin colled heb un yn daclus wnaiff lwyth trol (4,4)
13 Erfyn hirgoes i drin gwair (7)
15 Ceisio cael hyd iddo, er nad yn llawn sobor (7)
16 A glywir hyn yng Nghas-Blaidd tybed ? (3,3)
18 Ebe hi (5)
20 Diflannu'n raddol (5)
21 Daw yn daclus gyda mymryn o ffydd i drefnu'n tynged (4)

Atebion erbyn 4ydd Gorffennaf 2025 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**ATEBION CROESAIR MAI 2025**

**AR DRAWS** 1 Deialog, 5 Conwy, 8 Aeron, 9 Atebion, 10 Cyfeillgar, 12 RTE, 13 Llygadu, 14 Amdani, 17 Don, 18 Cilagored, 20 Anadlaf, 21 Bonedd, 23 Tudur, 24 Dylunio

**I LAWR** 1 Dianc, 2 Iâr, 3 Lansiad, 4 Gwasgu, 5 Cweir, 6 Neidr Wair, 7 Ymnoethi, 11 Feganiaid, 13 Llidiart, 15 Magu Bol, 16 Clefyd, 18 Colur, 19 Dyddio, 22 Nen

Yr unig wall y mis hwn oedd 'neidr fawr' (6 I Lawr) yn hytrach na'r ateb cywir 'neidr wair'.

Pob clod i'r canlynol am anfon atebion cywir: Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; John Ffrancon Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; Huw a Gwenno, Gerlan; Judith Hughes, Llangoed; Ann Morris, Doris Shaw, Rita Bullock, Margaret Williams, Bethesda; M. A. Jones, Wendy Eccles, Llanllechid; Gareth Oliver, Rosemary Williams, Sian Beidas, Tregarth; Medi Michael, Bangor; Gill King, Mynydd Llandygai.

Yn derbyn y wobr y tro yma y mae Huw a Gwenno, Y Wern, Gerlan, Bethesda, Bangor LL57 3TH. Llongyfarchiadau mawr i chi.



Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

*Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853) nev_hughes @btinternet.com*

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (4)

## Gan **Howard Huws**

Sôn yr oeddwn i'r tro diwethaf am y dylwythen deg o Lyn Cororion, ac iddi gytuno i briodi mab Cororion ond iddo beidio â'i tharo hi efo haearn. A beth ddigwyddodd? Wrth iddynt geisio dal ebol yng nghaeau Bryn Twrw, taflodd ei gŵr ffrwyn ati, iddi ei roi am ben yr anifail: ond dyma enfa haearn y ffrwyn yn ei tharo hi. Ar unwaith, dyma hi'n codi i'r awyr "fel iâr goed", meddai'r hen chwedl, cyn plymio o'r golwg i'r llyn.

Yn ôl fersiynau eraill o'r chwedl, bu i'w gŵr gyffwrdd â hi efo haearn wrth iddynt aredig, a hithau'n arwain y ceffylau; neu yn y stabal, wrth geisio gosod ffrwyn am geffyl; neu yn y cae o flaen y tŷ. Yr un oedd y canlyniad, fodd bynnag: ac wedi i'w gŵr sylweddoli'r hyn oedd wedi ei wneud, aeth adref yn bendrist. Pan gyrhaeddodd, roedd yna dwrw wylo mawr yn y lle, a lleisiau'n galaru ar ôl "Belenê". Dyna'r tro cyntaf iddo glywed ei henw, a dyna, hefyd, sut gafodd Bryn Twrw ei enw.

Cafodd ei gweld hi un waith eto, yn y gaeaf, pan glywodd ei llais yn galw arno o'r tu allan i'r tŷ. Edrychodd arni drwy'r ffenestr, ac adroddodd hithau'r pennill canlynol:

Os bydd annwyd ar fy mab,
Rhowch amdano gob ei dad;
Os bydd annwyd ar liw'r can,
Rhowch amdani bais ei mam.

Hynny yw, os bydd annwyd ar hogyn, gwisgwch gôt ei dad amdano. Os ar hogan ("lliw'r can" yw "lliw'r blawd gwyn"), gwisgwch hi ym mhais ei mam, iddynt gael gwella. Mae'r cyfarwyddyd meddygol hwn, a manylion eraill yr hanes, yn atgoffa rhywun yn fawr o Chwedl Llyn y Fan Fach ym Mrycheiniog.

Dywedid i blant tylwythes Cororion aros yn Llandygái a Llanllechid wedi ei diflaniad hi, ac y gelwid nhw'n "Simychiaid" neu'n "Smychiaid". Nid da fu ganddynt hynny, a byddai crybwyll y peth wrthynt yn eu gwylltio'n gacwn. Eto, ceir yr un hanes am ŵr meidrol a thylwythen deg yn magu disgynyddion yn ardal Beddgelert a Betws Garmon, ond mai "Pellings" y galwyd nhw yno: enw sy'n rhyfedd o debyg i "Belenê".

Clywid y tylwyth yn canu yn y llyn gyda'r hwyr, ond nid diogel oedd mynd yno'r adeg honno. Aeth merch a boenid gan y ddannodd yno un gyda'r nos i godi gwreiddyn a allai ladd poen dannedd, o'i gnoi: gwreiddyn gelaits, debyg. Ond wrth godi darn o'r gwreiddyn, daeth sgrech ddychrynllyd o'r llyn, a dyma hi'n ei goleuo hi yn ôl am y tŷ.

Yr oedd bydwraig yn byw yng Nghororion, ac un tro cyflogwyd hi gan un o wŷr y tylwyth teg i weini ar dylwythen oedd ar fin geni plentyn. Aethpwyd â hi i blas crand ofnadwy, na wyddai hi ddim amdano cyn hynny, a dyma hi'n helpu efo'r enedigaeth. Yn union wedi'r geni, rhoddwyd iddi eli i iro'r baban newydd, ac ar ddamwain rhoddodd hithau fymryn ar ei llygad ei hun. Yna gallai weld lle'r oedd hi mewn gwirionedd: yn rhyw hen dwll o le, efo rhedyn crin ar lawr. Ddywedodd hi ddim: cymerodd ei thâl gan y dyn, ac aeth adref.

Toc wedyn aeth i'r dref , a gwelodd y gŵr a'i cyflogodd hi yn cerdded ymysg stondinau'r farchnad. Dyma hi'n ei gyfarch o, ac yn holi am y wraig a'r plentyn: a gofynnodd hwnnw, "Efo pa lygad wyt ti'n fy ngweld i?" "Hon", meddai hithau: a chyn gynted ag y dywedodd hi hynny, dyma fo'n diflannu.

# YSGOL PENYBRYN

**Llwyddiant yn y Criced**
Pleser o'r mwyaf oedd cael mynd a dau dîm i gystadlu yn Nhwrnament Criced 50/50 yr Urdd Eryri ym Mangor. Yn ddios, roedd pob un plentyn yn arbennig, yn gwrtais gyda phawb gan chwarae pob gem yn arbennig. Llongyfarchiadau enfawr i'r Tîm Coch a ddaeth yn fuddugol, gan lwyddo i ennill pob gem. Ymlaen ā ni i Gaerdydd ym Mehefin!

**Llwydiant yn y Rygbi**
Llongyfarchiadau enfawr i'r criw o enethod bl 5 a 6 ar ddod yn ail yn nhwrnament rygbi genethod yr Urdd yng Nghaernarfon! Rydym yn hynod falch ohonoch!

**Ymweliad Rownd a Rownd**
Bu blwyddyn 5 a 6 yn ddigon ffodus i gael ymweld a Stiwdio Rownd a Rownd fel rhan o'n gwaith ar y Siarter Iaith. Cawson nhw gyfle i grwydro o amgylch y set a chwarae rôl wrth berfformio ambell olygfa. Profiad gwych i'r plant cael gweld y byd cyfryngau ar waith a sut mae'r Gymraeg yn agor drysau i doreth o swyddi amrywiol.

**Ffair Fusnes Elidir a Glyder**
Heidiodd degau o bobl yma i Ffair Fusnes olaf Elidir a Glyder am eleni. Braf oedd cael croesawu disgyblion blwyddyn 7 o Ddyffryn Ogwen a disgyblion blwyddyn 2 Abercaseg yma, ā rhieni'r ysgol wrth gwrs. Dyma brosiect anhygoel sydd wedi tyfu a thyfu gydol y flwyddyn, gan roi cyfleoedd anhygoel i'r plant wrth ddatblygu sgiliau rhifedd, datrys problemau, cyd-weithio, cyfathrebu a sut mae goroesi ym myd busnes. Diolch o galon i'r plant am yr holl waith caled, a da iawn i bob busnes sydd wedi creu elw sylweddol. Mwynhewch y gwario yng Nghaernarfon!



Llwyddiant yn y Criced



Ffair Fusnes Elidir a Glyder








Osian Hughes

# Codi cwpan

Am ddiweddglo gwych i dymor prysur yn ddiweddar pan enillodd tîm Bethesda Athletic y gynghrair. Sicrhaodd yr hogiau'r anrhydedd trwy drechu Gwalchmai o 7 gôl i 1 mewn gêm gartref i'w chofio ar Barc Meurig.

Yn ychwanegol, llwyddodd pedwar chwaraewr i gyrraedd cant o gemau i'r clwb - Noa Hughes, Joe Todd, Kyle Hartleb ac Osian Hughes. Roedd yn noson eithriadol i Osian wrth iddo ennill gwobrau chwaraewr y rheolwr, chwaraewr y chwaraewyr, chwaraewr y cefnogwyr a phrif sgoriwr y clwb am y tymor!

Ond os nad oedd pawb yn fodlon gyda hyn fel mesur o lwyddiant, daeth cyhoeddiad arall i goroni'r cyfan. Meddai'r clwb mewn datganiad:

'Mae'r clwb yn hynod falch o gyhoeddi newyddion cyffrous a phositif. Bydd clybiau iau Bethesda Athletic ac Ogwen Tigers yn uno i greu 'Clwb Pêl-Droed Bethesda Tigers'. Y bwriad fydd i alluogi holl blant y pentref i hyfforddi a chwarae ar gyfer yr un clwb a chaniatáu dilyniant o bêl-droed iau i'r timau hŷn.

Bydd y strwythur yn cynnwys:
Timau genethod:
Dan 7, 8, 9 - Huddle
Dan 11, Dan 13, Dan 15
Timau Cymysg: Dan 5 trwodd i Dan 17

Bydd hyn yn sicrhau bod o gwmpas 250 o blant a phobl ifanc yn chwarae pêl droed ym Methesda - sydd yn sicrhau bod dyfodol pêl droed y pentref yn un llewyrchus.'

Gyda'r seiliau eisoes yn gadarn, mae dyfodol y bêl gron yn edrych yn hynod addawol ym Methesda. Ymlaen bo'r nod!

